

**Arolygiad dan Adran 10  
Deddf Arolygiadau Ysgolion 1996**

**Ysgol Uwchradd Dinbych  
Heol Rhuthun  
Dinbych  
LL16 3EX**

**Rhif yr Ysgol: 6634026**

**Dyddiad yr Arolygiad: 20 Mawrth 2006**

**gan**

**Terence Andrew O'Marah  
17193**

**Dyddiad Cyhoeddi: 25 Mai 2006**

**Dan rif contract Estyn: 1211105**

**Diben Estyn yw gwella ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- \* ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir neu a ddefnyddir gan awdurdodau addysg lleol (AALLau);
- \* ysgolion cynradd;
- \* ysgolion uwchradd;
- \* ysgolion arbennig;
- \* unedau cyfeirio disgyblion;
- \* ysgolion annibynnol;
- \* addysg bellach;
- \* dysgu oedolion yn y gymuned;
- \* gwasanaethau cymorth ieuencid;
- \* AALLau;
- \* addysg a hyfforddiant athrawon;
- \* dysgu yn y gwaith;
- \* cwmnïau gyrfaedd; ac
- \* elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y Ganolfan Byd Gwaith.

Mae Estyn hefyd:

- \* yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- \* yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygiadau.

Cymerwyd pob gofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk](mailto:cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: [www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk)

**© Hawlfraint y Goron 2006 Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad.**

Mae copiâu o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol. O dan Ddeddf Arolygiadau Ysgolion 1996, rhaid i'r ysgol ddarparu copiâu o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl heb fod yn fwy na chost atgynhyrchu ar eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

Arolygwyd Ysgol Uwchradd Dinbych fel rhan o raglen genedlaethol o arolygiadau ysgolion. Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt wella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Bwriedir i arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd i roi mwy o wybodaeth i rieni am ysgol eu plentyn.

Cynhaliwyd yr arolygiad o Ysgol Uwchradd Dinbych rhwng 20/03/06 a 24/03/06. Cynhaliwyd yr arolygiad, gan dîm annibynnol o arolygwyr, a arweiniwyd gan Terence Andrew O'Marah. Comisiynwyd yr arolygiad gan Estyn, sef corff statudol sy'n annibynnol, ond a ariennir gan, Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth a'r cyfraniad a wneir gan yr ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion.

Mae'r raddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli'r holl farnau arolygu yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

<b>Gradd 1</b>	da gyda nodweddion rhagorol
<b>Gradd 2</b>	nodweddion da a dim diffygion pwysig
<b>Gradd 3</b>	nodweddion da yn gorbwyso diffygion
<b>Gradd 4</b>	rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
<b>Gradd 5</b>	llawer o ddiffygion pwysig

Mae yna dri math o arolygiad.

Ar gyfer **pob** arolygiad, mae yna adroddiad ysgrifenedig ar saith cwestiwn allweddol.

Ar gyfer arolygiadau **byr**, nid oes adroddiadau pwnc.

Ar gyfer arolygiadau **safonol**, mae adroddiadau ar chwe phwnc hefyd.

Ar gyfer arolygiadau **llawn**, mae adroddiadau ar yr holl bynciau hefyd.

**Mae Estyn yn penderfynu ar y math o arolygiad a gaiff ysgol, yn bennaf ar sail ei pherfformiad yn y gorffennol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cael arolygiad safonol. Caiff pob ysgol arbennig, uned cyfeirio disgyblion ac unrhyw ysgolion newydd neu ysgolion wedi'u huno arolygiad llawn.**

Cafodd yr ysgol hon arolygiad **safonol**.

## Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALLau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd ac yn y blaen. Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Sector cynradd:

Blwyddyn	D	B 1	B 2	B 3	B 4	B 5	B 6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Sector uwchradd:

Blwyddyn	B 7	B 8	B 9	B 10	B 11	B 12	B 13	B14
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18	18-19

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn ymdrin â phedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

<b>Cynnwys</b>	<b>Tudalen</b>
<b>Cyd-destun</b>	<b>1</b>
<b>Crynodeb</b>	<b>2</b>
<b>Argymhellion</b>	<b>9</b>
<b>Safonau</b>	<b>10</b>
Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	10
<b>Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant</b>	<b>16</b>
Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	16
Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae'r profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	20
Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	24
<b>Arweinyddiaeth a rheolaeth</b>	<b>26</b>
Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?	26
Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae'r arweinwyr a'r rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	28
Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon yw'r arweinwyr a'r rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	30
<b>Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu</b>	<b>33</b>
Cymraeg iaith cyntaf	33
Saesneg	34
Gwyddoniaeth	36
Dylunio a thechnoleg	39
Cerddoriaeth	40
Addysg gorfforol	42
<b>Ymateb yr ysgol i'r arolygiad</b>	<b>45</b>
<b>Atodiadau</b>	<b>46</b>
1 Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol	46
2 Data a dangosyddion ysgol	47
3 Canlyniadau asesu'r Cwricwlwm Cenedlaethol	48
4 Sail dystiolaeth yr arolygiad	51
5 Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu	52

## Cyd-destun

### Natur y darparwr

1. Mae Ysgol Uwchradd Dinbych yn ysgol gyfun gydaddysgol Saesneg ei chyfrwng ar gyfer disgyblion 11 i 19 oed. Ar hyn o bryd, mae 955 o ddisgyblion ar y gofrestr gyda 124 o fyfyrwyr yn y chweched dosbarth. Mae nifer o siaradwyr y Gymraeg o blith y staff. Mae myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg hefyd yn rhan o boblogaeth yr ysgol. Mae 33 o ddisgyblion sydd â datganiadau anghenion addysgol arbennig. Mae hawl gan 13.8% o ddisgyblion i dderbyn pryduau-bwyd ysgol am ddim, sy'n uwch na'r cyfartaledd ar gyfer yr Awdurdod Unedol, ond yn is na'r ffigwr cyfatebol ar gyfer Cymru. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Ionawr 2000.
2. Mae dalgylch yr ysgol yn cwmpasu tref Dinbych, dinas Llanelwy a'r cymunedau amaethyddol o gwmpas ardal brydferth Dyffryn Clwyd. Mae i fyny at 15 o ysgolion cynradd (rhai ohonynt yn rhai bach iawn) yn bwydo disgyblion i'r ysgol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn fechgyn. Mae tref Dinbych hefyd yn cynnwys un ysgol annibynnol i ferched ac un ysgol ddetholus i ferched a gynhelir gan yr awdurdod lleol. O ran gallu a phroffil cymdeithasol, mae'r ysgol yn ysgol gyfun cwbl gymysg. Mae disgyblion yn arddangos yr amrediad llawn o ddoniau a galluoedd, ac maent yn dod o ystod lawn o gefndiroedd cymdeithasol. Mae pocedi o amddifadedd dwys yn Ninbych Uchaf. Mae disgyblion ag ystod eang o anghenion arbennig yn mynychu'r ysgol, sydd wedi ei chynllunio ar gyfer mynediad cadair-olwyn. Mae'r ysgol wedi'i chysylltu gan goridor i Ysgol Plas Brondyffryn, ysgol arbennig ar gyfer ieuenctid ar y sbectrwm awtistaidd. Mae'r disgyblion yn defnyddio ffreutur Ysgol Uwchradd Dinbych ac maent yn ymuno â rhai gwersi, weithiau yn trosglwyddo drosodd i addysg brif-ffrwd yn gyfan gwbl.
3. Mae'r ysgol wedi'i lleoli ynghanol caeau chwarae mawr a nesaf i'r Ganolfan Hamdden Gymunedol, y defnyddir ei chyfleusterau yn ystod y diwrnod ysgol. Cynhelir dosbarthiadau i oedolion yn yr ysgol yn y nos, a llogir allan adrannau gwahanol, yn enwedig y neuadd, ar gyfer achlysuron cymdeithasol. Mae cynhyrchiad blynyddol yr ysgol yn ddigwyddiad sylweddol ar galendr y gymuned. Mae llawer o'r rhieni yn gyn-ddisgyblion, fel y mae rhai o'r athrawon. Mae rhai o'r athrawon yn dewis addysgu eu plant yn yr ysgol hon yn hytrach nag yn eu cymdogaeth eu hunain. Mae'r ysgol wedi wynebu llawer o drafferthion ariannol yn y gorffennol, ac mae ei chyllideb yn dal yn isel.

### Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

4. Prif flaenoriaeth yr ysgol yw gwella safonau yn yr holl feysydd, ond yn neilltuol yn ansawdd yr addysgu a'r dysgu a'i effaith ar gyflawniad a chyrhaeddiad disgyblion. Blaenoriaethau eraill yw datblygu cysylltiadau gydag ysgolion cynradd er mwyn gwella trosglwyddo, ehangu rhychwant cwricwlaidd yr holl ddisgyblion, yn enwedig y rhai 14 i 19 oed, datblygu ystod o ddulliau o gysylltu â rhieni a rhannu gwybodaeth gyda hwy a mwyhau dylanwad llais y myfyrwyr. Yn ogystal, bydd yr ysgol yn gweithio er mwyn codi proffil a llwyddiant y chweched

dosbarth; sefydlu cyfundrefn go iawn o fonitro a hunan-arfarnu; adolygu'r cwricwlwm a systemau ymddygiad; cychwyn rhaglen adnewyddu o gwmpas yr ysgol a gwella sicrwydd ysgol.

## Crynodeb

5. Mae Ysgol Uwchradd Dinbych yn ysgol sy'n trawsnewid. Mae'r pennaeth presennol wedi bodi mewn swydd ers mis Medi 2004, ac mae wedi ehangu'r tîm arweinyddiaeth presennol ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol. Mae newidiadau sylweddol wedi'u gwneud, ond nid yw llawer o'r rhain wedi cael cyfle i ddangos eu heffaith llawn eto. Mae'r Cynllun Gwelliant, a gymeradwywyd gan y Corff Llywodraethol, yn dangos rhai datblygiadau pwysig a hanfodol. Ar hyn o bryd, mae amrywiadau eang yn ansawdd yr addysgu a'r dysgu ar draws yr ysgol. Mae'r rhain yn amrywio o nodweddion eithriadol i'r rhai hynny â diffygion pwysig.

### Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd

Cwestiwn Allweddol	Gradd arolygu
1 Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	3
2 Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	3
3 Pa mor dda y mae'r profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	3
4 Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	2
5 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?	3
6 Pa mor dda y mae'r arweinwyr a'r rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	3
7 Pa mor effeithlon yw'r arweinwyr a'r rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	3

### Safonau

#### Graddau ar gyfer safonau yn y pynciau a arolygwyd

Maes Arolygu	Cyfnod Allweddol 3	Cyfnod Allweddol 4	Ôl-16
Cymraeg iaith cyntaf	3	3	dd/g
Saesneg	3	2	2
Gwyddoniaeth	2	4	3
Dylunio a thechnoleg	1	1	2
Cerddoriaeth	4	4	3
Addysg gorfforol	3	3	3

6. Mae safonau yn y chwe phwnc y dewiswyd i'w harolygu yn dangos amrywiaeth fawr. Mae dylunio a thechnoleg yn dda gyda nodweddion eithriadol. Mae Saesneg wedi cynnal safonau da er gwaethaf rhai anawsterau staffio sydd wedi gwneud dilyniant yn yr addysgu yn anodd. Mae diffygion pwysig mewn gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 4, a cherddoriaeth yn y ddau gyfnod allweddol.
7. Mae'r tabl canlynol yn dangos y graddau a ddyfarnwyd ar gyfer y safonau mae disgyblion wedi'u cyflawni, yn y gwahanol gyfnodau, yn yr holl bynciau yr arolygwyd:

97 gwera	Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
Cyfnod Allweddol 3	14%	34%	38%	14%	0%
Cyfnod Allweddol 4	13%	21%	41%	22%	3%
<b>Cyfnodau Allweddol 3 a 4 ar y cyd</b>	<b>13%</b>	<b>30%</b>	<b>39%</b>	<b>17%</b>	<b>1%</b>
ÖI-16	0%	53%	47%	0%	0%
<b>Ysgol gyfan</b>	<b>11%</b>	<b>33%</b>	<b>41%</b>	<b>14%</b>	<b>1%</b>

(am eglurhad o'r graddau, cyfeirier at ddechrau'r adroddiad)

8. At ei gilydd, mae gallu disgyblion wrth iddynt ddod i mewn i'r ysgol yn B7 yn unol yn fras â chyfartaleddau cenedlaethol.
9. Nodweddion da'r cyrhaeddiad yw:
- yng nghyfnod allweddol 3 yn y tri phwnc craidd, mae canlyniadau yn agos i'r chyfartaleddau cenedlaethol a lleol;
  - mae canlyniadau yng nghyfnod allweddol 3 yn dangos tueddiad graddol ond cyson at wella;
  - ym mron hanner y pynciau lle sefir arholiadau TGAU, mae disgyblion yn cyflawni canlyniadau sy'n gymharol â, neu ychydig bach yn uwch na chyfartaleddau cenedlaethol, a hefyd
  - yn TGAU, mae cyfran y disgyblion sy'n cael pum Gradd A\* i G neu fwy yn uwch na chyfartaleddau cenedlaethol a lleol.
10. Diffygion y cyrhaeddiad yw:
- mae cyfran y disgyblion sy'n cael pum Gradd A\* to C neu fwy yn TGAU yn is na chyfartaleddau cenedlaethol a lleol, ac nid yw'n dangos tueddiad cyson at wella;
  - mae cyflawniad y dangosydd pwnc craidd (DPC) yn TGAU yn is na chyfartaleddau cenedlaethol a lleol;
  - yn TGAU, perfformiodd merched yn sylweddol well na bechgyn yn 2005, a hefyd
  - o'u cymharu ag ysgolion cyffelyb, adeg cyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, mae rhan fwyaf y prif ddangosyddion yn gosod yr ysgol yn y chwarter isaf.



11. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd da.
12. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n astud ac yn ymateb i gwestiynau. Mae medrau darllen yn gyffredinol dda. Mae ysgrifennu fel arfer yn estynedig, ac mae wedi'i strwythuro'n dda pan fo'r angen.
13. At ei gilydd, mae gan fedrau rhifiadol disgyblion ar draws gyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 nodweddion da sy'n gorbwyso diffygion. Mae nifer fechan o ddisgyblion sydd â diffyg hyder yn eu galluoedd rhifiadol.
14. Mae safonau medrau disgyblion wrth ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), a'r cyfleoedd i'w defnyddio, yn amrywio'n eang o bwnc i bwnc. Cyfyng yw mynediad disgyblion i gyfrifiaduron y tu allan i wersi. Gwneir defnydd annigonol o TGCh y gynorthwyo disgyblion ag anghenion addysgol arbennig.
15. Mae gan ddatblygiad medrau dwyieithog disgyblion nodweddion da sy'n gorbwyso diffygion. Mae'r rhan fwyaf yn dilyn cwrs TGAU Iaith Gymraeg yng nghyfnod allweddol 4, ond cyfyng yw eu defnydd achlysurol o'r iaith o gwmpas yr ysgol.
16. Mewn tua thraean o'r gwersi a welwyd yn y chwe phwnc yr arolygwyd, mae safonau yn dda a dim diffygion pwysig. Esiamplau o'r nodweddion da yw:
  - y defnydd o derminoleg neu eirfa gywir;
  - atgofio dysgu blaenorol yn gywir;
  - deall y wybodaeth neu'r cysyniadau newydd a ddysgwyd yn y wers;
  - gwaith ymarferol o ansawdd dda;
  - defnydd effeithiol o TGCh, a hefyd
  - y cynnydd da a wnaed gydol y wers.
17. Roedd gan un wers ym mhob chwech nodweddion da, ac roedd rhai ohonynt yn eithriadol. Esiamplau o'r nodweddion eithriadol hyn yw:
  - gallu disgyblion i egluro a chyfiawnhau eu barn eu hunain;
  - gwaith sy'n aml yn greadigol ac arloesol;
  - gwaith ymarferol o ansawdd uchel iawn, a hefyd
  - disgyblion yn gweithio'n annibynnol yn llwyddiannus iawn.
18. Roedd diffygion mewn nifer o wersi, ac roedd rhai ohonynt yn rhai pwysig. Yn y gwersi hyn:
  - mae mwyafrif y disgyblion yn methu gwneud cynnydd digonol;
  - mae gormod o ddisgyblion yn ddisylw, gyda llawer ohonynt yn siarad pan ddylent fod yn dawel;
  - mae medrau ymarferol yn wael, a hefyd
  - mae gormod o waith heb ei gwblhau yn llyfrau'r disgyblion.
19. Mae gan fwyaf y disgyblion a myfyrwyr agwedd gadarnhaol tuag at yr ysgol a'u gwaith ysgol. At ei gilydd, mae disgyblion yn arddangos ymddygiad da at ei

gilydd ac at oedolion. Ar draws yr ysgol, mewn lleiafrif o wersi, mae disgyblion yn siarad â'i gilydd pan ddylent fod yn gwranddo neu'n gweithio. Mae hyn yn effeithio ar dempo a dilyniant gwersi, ac mae'n rhwystro cynnydd.

20. Lefel presenoldeb at ei gilydd yw 91% ar gyfartaledd, sy'n is na thargedau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r ysgol yn gweithio'n galed ynghyd â'r Gweithiwr Cymdeithasol Addysgol i wella'r ffigurau hyn. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn brydlon ar ddechrau'r diwrnod ysgol ac amserau gwersi unigol.
21. Paratoir disgyblion a myfyrwyr yn dda ar gyfer eu rolau at y dyfodol, mewn gwaith, mewn addysg ac yn y gymuned.
22. Yn gyffredinol, mae medrau datrys-problemau a medrau creadigol yn dda. Mewn rhai gwersi, mae disgyblion yn dangos blaengarwch ac annibyniaeth, ac mae eu hatebion a'u canlyniadau yn dangos lefel uchel o ddealltwriaeth, dawn a gwreiddioldeb.
23. At ei gilydd, mae'r gallu i weithio gydag eraill yn dda. Tra bod nifer o ddisgyblion a myfyrwyr yn dda wrth adolygu eu cynnydd eu hunain, mae lleiafrif sylweddol sy'n ymddwyn yn llai cyfrifol, ac maent yn fwy amharod i gymryd camau i wella eu dysgu a'u perfformiad eu hunain.

### **Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant**

24. Mae'r tabl canlynol yn dangos y graddau a ddyfarnwyd am ansawdd addysgu ac asesu yn yr holl wersi yr arsylwyd arnynt yn ystod yr arolygiad. Arsylwyd ar yr holl athrawon yn yr ysgol yn addysgu.

<b>139 gwर्स</b>	<b>Gradd 1</b>	<b>Gradd 2</b>	<b>Gradd 3</b>	<b>Gradd 4</b>	<b>Gradd 5</b>
Cyfnod Allweddol 3	16%	41%	30%	13%	0%
Cyfnod Allweddol 4	13%	25%	51%	9%	2%
<b>Cyfnodau Allweddol 3 a 4 ar y cyd</b>	15%	35%	38%	11%	1%
Ôl-16	8%	50%	42%	0%	0%
<b>Ysgol Gyfan</b>	14%	37%	39%	9%	1%

(am eglurhad o'r graddau, cyfeirier at ddechrau'r adroddiad)

25. Mae ansawdd yr addysgu wedi gwella ychydig ers yr adroddiad ar yr arolygiad diwethaf. Cyfran y gwersi sydd â rhai nodweddion eithriadol sydd wedi dangos y gwelliant mwyaf, gan godi o 2% at ei gilydd i 14%.
26. Lle dyfarnwyd bod yr addysgu yn dda gyda nodweddion eithriadol, roedd hyn am fod yr athrawon wedi cyflwyno gwersi lle'r oedd y tempo a lefel yr her yn uchel, a lle'r oeddent yn gosod cwestiynau a oedd yn herio ac ymestyn dealltwriaeth disgyblion. Roedd ganddynt berthynas-waith gadarnhaol gyda'r disgyblion a gwnaethant egluro gwaith newydd yn eglur ac effeithiol. Cynlluniasant eu gwersi yn fanwl iawn, a monitro cynnydd disgyblion yn agos.

27. Tra'r oedd tua hanner y gwersi a welwyd yn dda a dim diffygion pwysig, yn y gweddill, roedd diffygion, ac roedd rhai ohonynt yn rhai pwysig. Roedd gan rai dempo araf nad oedd yn herio disgyblion i gyflawni cystal ag y medrent. Roedd defnydd anghyson o bolisi Gwobrwyon a Sanctiynau'r Ysgol. Nid oedd rhai gwersi wedi'u cynllunio'n dda, ac ni wnaethant ddarparu'n briodol ar gyfer dysgu disgyblion o bob gallu.
28. Mae gan y gweithdrefnau ar gyfer asesu, cofnodi a chyflwyno adroddiadau am gyflawniadau disgyblion nodweddion da sy'n gorbwyso diffygion. Tra bod esiampiau yn yr ysgol o asesu a marcio eithriadol, mae anghysondebau o ran arfer ar draws y cwricwlwm. Mae rhan fwyaf yr athrawon yn marcio ac asesu gwaith disgyblion a myfyrwyr yn dda, ac maent yn defnyddio'r data a gasglwyd i fonitro eu cynnydd a chanfod tangyflawni.
29. At ei gilydd, mae'r cwricwlwm yn caniatáu mynediad cyfartal i ddisgyblion o bob gallu. Anogir disgyblion i gyflawni llwyddiant ym mhob cyfnod allweddol.
30. Mae gan ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 gyfleoedd i gael cymwysterau ar lefel TGAU a Lefel Mynediad. Mae mynediad i'r chweched dosbarth yn agored i'r holl ddisgyblion; maent yn cael cyfleoedd i gael cymwysterau ar lefelau AS ac A2. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gyfleoedd i astudio cyrsiau galwedigaethol na chael y cymwysterau priodol.
31. Mae gan yr ystod o weithgareddau allgyrsiol ar gyfer yr holl flynyddoedd nodweddion da sy'n gorbwyso diffygion. Mae cynrychiadau'r ysgol yn llwyddiannus iawn, ac maent yn cwmpasu nifer fawr o ddisgyblion a myfyrwyr. Mae disgyblion a myfyrwyr yn elwa o ymweliadau ag orielau a theatrau, ymweliadau-maes mewn daearyddiaeth a thaith sgïo. Fodd bynnag, mae'r cyfleoedd cyfyng mewn gweithgareddau cerddorol, peniannau-chwaraeon rheolaidd a chlybiau yn cwrdd yn ystod awr-ginio yn ddiffyg.
32. Mae datblygiad cymdeithasol, diwylliannol a moesol disgyblion yn dda ar y cyfan, ond nid yw datblygiad ysbrydol wedi'u ddatblygu'n llawn. Nid yw'r ysgol yn cwrdd â'r gofyn i ddarparu gweithred feunyddiol o gydaddoli i'r holl ddisgyblion.
33. Mae partneriaeth effeithiol gyda rhieni, y gymuned, ysgolion cynradd sy'n bwydo, ysgol-uwchradd leol a chyflogwyr yn sicrhau cyfoethogi da o brofiadau dysgu disgyblion.
34. Mae'r rhaglenni ar gyfer addysg bersonol, cymdeithasol ac iechyd, addysg gysylltiedig-â-gwaith ac addysg a chyfarwyddyd gyrfao, yn cwrdd â chanllawiau cenedlaethol ac maent wedi'u cynllunio'n dda yn y cwricwlwm.
35. Mae'r ysgol yn darparu addysg gysylltiedig-â-gwaith dda ac mae'n ymateb i'r rhan fwyaf o anghenion cyflogwyr a'r gymuned ehangach.
36. Mae'r ysgol yn darparu rhaglen gynhwysfawr ar gyfer disgyblion Cymraeg iaith-gyntaf a Chymraeg ail-iaith ym mhob cyfnod allweddol. Mae arwyddion ac arddangosfeydd dwyieithog o gwmpas yr ysgol, ac mae holl ohebiaeth yr ysgol â

rhieni yn ddwyieithog. Cynhelir gwersi tiwtorialau yn Gymraeg ar gyfer disgyblion iaith-gyntaf.

37. Mae rhai nodweddion da yn y modd y mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.
38. Mae ansawdd y gofal, cymorth a chyfarwyddyd i ddysgwyr yn dda. Mae gan yr ysgol dîm ymroddedig o athrawon a staff cynorthwyol sy'n cynorthwyo disgyblion i gyrraedd eu potensial.
39. Mae rhai o'r nodweddion da yn cynnwys ymgynghori rheolaidd gyda rhieni a gofawyr, a gweithdrefnau effeithiol ar gyfer delio ag ymddygiad gormesol a bwlio.
40. Mae rhaglen sefydlu sydd wedi'i threfnu'n dda pan fo disgyblion yn trosglwyddo o ysgolion cynradd, ac mae gweithdrefnau Diogelu Plant yn eglur, ac mae pawb yn eu deall.
41. Mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer cyfle cyfartal yn dda. Mae gan yr holl ddisgyblion fynediad llawn i'r cwricwlwm, ac mae'r cwrs addysg bersonol, cymdeithasol ac iechyd yn darparu cyfleoedd i ddysgu am bobl o ddiwylliannau eraill. Integreiddir disgyblion ag anableddau corfforol i fywyd yr ysgol.

### **Arweinyddiaeth a rheolaeth**

42. Mae'r pennaeth, sydd yn eu hail flwyddyn yn yr ysgol, yn darparu arweinyddiaeth dda. Mae hi'n derbyn cefnogaeth dda oddi wrth ei thîm arweinyddiaeth. Maent wedi canfod yn gywir eu blaenoriaethau ar gyfer gwelliant, ac maent yn mynd ar eu hôl yn weithredol. Mae newidiadau a gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud i bolisiâu a gweithdrefnau ysgol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:
  - mae'r llywodraethwyr bellach yn ymwneud yn llawn mewn trafodaeth a gwneud-penderfyniadau;
  - mae coladu a dadansoddiad gwell o ddata arholiadau a phroffion;
  - mae codau mwy llym yn bodoli bellach ar gyfer ffurfwisg ac ymddygiad disgyblion, a hefyd
  - mae adrannau bellach yn cyhoeddi cynlluniau datblygu, ac mae hunan-arfarnu yn gwella.
43. Mae diffygion yn ansawdd yr arweiniad a'r rheolaeth ar draws adrannau pwnc a meysydd cyfrifoldeb eraill:
  - mae amrywiaethau sylweddol yn ansawdd yr addysgu, dysgu ac arweinyddiaeth pwnc;
  - nid yw hunan-arfarnu naill yn ddigon llym na chynhwysfawr yn holl ardaloedd yr ysgol, a hefyd
  - ni weithredir polisiâu ysgol mewn modd cyson.
44. Mae'r ysgol yn cymryd ystyriaeth o flaenoriaethau cenedlaethol, ond mae diffygion yn y cwricwlwm 14 i 19. Eir i'r afael â'r rhain mewn dogfennau cynllunio ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf, ond nid ydynt yn eu lle eto.

45. Canfyddir anghenion hyfforddi staff yn briodol trwy'r broses Rheoli Perfformiad. Rheolir yr hyfforddiant hwn yn dda. Rhoddir cymorth da i athrawon sydd newydd gymhwyso, ac athrawon dan hyfforddiant.
46. Mae'r llywodraethwyr yn chwarae rôl gefnogol iawn ym mywyd yr ysgol, ac maent yn cwrdd â'u gofynion rheolaethol a chyfreithiol.
47. Mae adroddiad hunan-arfarnu'r ysgol, a rannwyd yn briodol â'r llywodraethwyr, yn ddadansoddiad gonest a chywir o nodweddion da a diffygion yr ysgol.
48. Mae hunan-arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant ar draws yr ysgol, ill dau, yn arddangos anghysondebau. Mae llawer o arfer da; mae peth yn eithriadol. Mae hefyd rhai meysydd lle mae diffygion pwysig.
49. Cymysg yw cynnydd yr ysgol wrth fynd i'r afael â'r materion allweddol yn yr adroddiad blaenorol. Mae peth cynnydd da wedi'i wneud wrth wella'r defnydd o ddata ac wrth wella amrediad yr adnoddau TGCh sydd ar gael i ddisgyblion. At ei gilydd, mae peth cynnydd wedi'u wneud wrth wella safonau yng nghyfnod allweddol 3, cyfraniad gwaith cartref a chysondeb marcio gwaith disgyblion. Ychydig neu ddim cynnydd sydd wedi'i wneud wrth wella'r safonau a gyflawnir mewn cerddoriaeth, neu wrth ddarparu gweithred feunyddiol i gydaddoliad ar gyfer disgyblion.
50. At ei gilydd, mae nifer y staff fwy neu lai yn ddigon i gynnal yr ysgol yn effeithlon. Mae'r staff addysgu wedi'u cymhwyso'n briodol. Mae'r staff heb-ofal-dosbarth yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i weithrediad esmwyth yr ysgol.
51. Mae diffygion yn y staffio. Defnyddir nifer o athrawon nad ydynt yn arbenigwyr i addysgu Saesneg a TGCh, a chyflogir llawer o athrawon rhan-amser. Dim ond un athro/athrawes sydd ar gyfer anghenion addysgol arbennig ac mae prinder cymorth technegydd.
52. Mae ansawdd a maint yr adnoddau dysgu wedi gwella, ond mae'r sefyllfa ariannol bresennol wedi cyfyngu ar hyn.
53. At ei gilydd, mae'r adeiladau a'r ystafelloedd yn ddigonol, fwy neu lai, ar gyfer nifer y disgyblion a'r myfyrwyr sydd ar y gofrestr ar hyn o bryd. Mae diffyg cynnal-a-chadw ac addurno gwael, ill dau, mewn rhai ystafelloedd dosbarth a choridorau, ac mae'r ysgol yn brin o un labordy gwyddoniaeth.
54. Mae rheolaeth ariannol yr ysgol yn dda. At ei gilydd, mae'r ysgol yn defnyddio eu hadnoddau a'i chyllid yn hyfedrus, ac mae'n cyflawni gwerth am arian.

## Argymhellion

- A1: Gwella safonau mewn gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 4;
- A2: Gwella effeithiolrwydd adrannau wrth godi safonau trwy ddod â nhw i gyd i fyny i safon yr arfer gorau yn yr ysgol wrth wneud y canlynol:
- marcio, asesu a gosod-targedau ar gyfer disgyblion unigol;
  - rhoi ymwneud i ddisgyblion mewn hunan-arfarnu
  - trwy ddefnyddio llymder a chysondeb wrth weithredu polisïau a gweithdrefnau ysgol, a hefyd
  - monitro a hunan-arfarnu addysgu a dysgu.
- A3: Gwella canfyddiad-cynnar tangyflawni disgyblion a myfyrwyr;
- A4: Gwella ehangder y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 4 ac ôl-16, a hefyd
- A5: Darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer datblygiad personol myfyrwyr chweched dosbarth trwy fwyhau eu rolau a'u cyfrifoldebau ym mywyd a gwaith yr ysgol.

Ni aethpwyd i'r afael yn briodol â dau Fater Allweddol o adroddiad Ionawr 2000 ar yr arolygiad. Maent felly yn dal yn Faterion Allweddol:

- gwella safonau mewn cerddoriaeth, a hefyd
- darparu gweithred feunyddiol o gydaddoli ar gyfer yr holl ddisgyblion.

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am ddiwygio ei gynllun datblygu cyfredol i ymgorffori camau gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion ymhen 45 diwrnod gwaith o gael yr adroddiad, gan ddangos yr hyn fydd yr ysgol yn ei wneud ynghylch yr argymhellion. Bydd y cynllun hwn, neu grynodedb ohono, yn cael ei ddsbarthu i bob rhiant yn yr ysgol.

## Safonau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

#### Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwysio diffygion

55. Mae'r radd a ddyfarnwyd gan y tîm arolygu yn cytuno â'r radd a ddyfarnwyd gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.

#### Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4

56. Mae'r tabl canlynol yn dangos y safonau a gyflawnwyd yn y chwe phwnc a arolygwyd yn fanwl:

Pwnc	Cyfnod Allweddol 3	Cyfnod Allweddol 4
Cymraeg iaith-gyntaf	3	3
Saesneg	3	2
Gwyddoniaeth	2	4
Dylunio a thechnoleg	1	1
Cerddoriaeth	4	4
Addysg gorfforol	3	3

(am eglurhad o'r graddau, cyfeirier at ddechrau'r adroddiad)

57. O'u cymharu â'r arolygiad blaenorol, mae safonau wedi gwella mewn dylunio a thechnoleg, ac wedi'u cynnal mewn Saesneg. Mae gwyddoniaeth wedi gwella yng Nghyfnod Allweddol 3, ond mae diffygion pwysig yng Nghyfnod Allweddol 4. Mae addysg gorfforol wedi cynnal safonau yng Nghyfnod Allweddol 4, ond maent wedi dirywio yng Nghyfnod Allweddol 3, ac nid yw cerddoriaeth wedi dangos unrhyw welliant, ac mae diffygion pwysig yng Nghyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4 fel ei gilydd. Ni adroddwyd ar Gymraeg iaith-gyntaf yn yr arolygiad blaenorol.
58. Y safonau a gyflawnodd disgyblion yn y gwahanol gyfnodau, yn y chwe phwnc yr arolygwyd oedd:

82 gwera	Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
Cyfnod Allweddol 3	14%	34%	38%	14%	0%
Cyfnod Allweddol 4	12%	22%	41%	22%	3%
<b>Cyfnodau Allweddol 3 a 4 ar y cyd</b>	<b>13%</b>	<b>30%</b>	<b>39%</b>	<b>17%</b>	<b>1%</b>

(am eglurhad o'r graddau, cyfeirier at ddechrau'r adroddiad)

59. At ei gilydd, ar gyfer y chwe phwnc a ddetholwyd, nid yw'r ysgol eto'n cwrdd â'r targed a osodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 2007, sef y dylai

98% o wersi gyflawni safonau Gradd 3 neu well, ac y dylai 65% fod yn Radd 2 neu well.

### **Llwyddiant disgyblion wrth gyrraedd nodau dysgu cytûn**

60. At ei gilydd, mae gallu disgyblion wrth iddynt ddod i mewn i'r ysgol yn unol, yn fras, â chyfartaleddau cenedlaethol.
61. Nodweddion da cyrhaeddiad yw:
  - yng nghyfnod Allweddol 3, yn y tri phwnc craidd, mae'r canlyniadau yn agos i gyfartaleddau cenedlaethol a lleol;
  - mae canlyniadau yng nghyfnod allweddol 3 yn dangos tueddiad graddol ond cyson tuag at welliant;
  - mae bron hanner y pynciau y mae disgyblion yn sefyll arholiadau TGAU ynddynt yn cyflawni canlyniadau sy'n gymharol â, neu ychydig yn uwch na chyfartaleddau cenedlaethol, a hefyd
  - yn TGAU, mae cyfran y disgyblion sy'n cael pum Gradd A\* to G neu fwy yn uwch na chyfartaleddau cenedlaethol a lleol.
62. Diffygion cyrhaeddiad yw:
  - mae cyfran y disgyblion sy'n cael pum Gradd A\* to C neu fwy yn TGAU yn is na chyfartaleddau cenedlaethol a lleol, ac nid yw'n dangos tueddiad cyson i wella;
  - mae cyflawniad y dangosydd pwnc craidd (DPC) yn TGAU yn is na chyfartaleddau cenedlaethol a lleol;
  - yn TGAU, perfformiodd merched yn sylweddol well na bechgyn yn 2005, a hefyd
  - o'u cymharu ag ysgolion cyffelyb, yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, mae rhan fwyaf y prif ddangosyddion yn gosod yr ysgol yn y chwarter isaf.
63. Mae dadansoddiad gwerth-ychwanegol yn dangos cynnydd da gydol cyfnod allweddol 3 gyda dirywiad at ei gilydd mewn cynnydd gydol cyfnod allweddol 4.
64. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd da.
65. Mae'r ysgol yn gosod targedau mewn cytundeb â'r Awdurdod Unedol. Roedd y rhai a osodwyd ar gyfer 2005 yn afreal, ac yn rhan fwyaf yr achosion ni chawsant eu cyflawni. Bellach, seilir gosod-targedau yn fwy sicr ar ddadansoddiad o ddata rhagfynegol, ac mae'n ymddangos fod y targedau a osodwyd ar gyfer 2006 a 2007 yn gyraeddadwy.
66. Mae gan fedrau disgyblion mewn cyfathrebu nodweddion da sy'n gorbwyso diffygion. Mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n astud ac yn ymateb i gwestiynau. Mae disgyblion abl yn rhoi ymatebion estynedig a defnyddio Saesneg Safonol yn briodol. Yn rhan fwyaf y gwersi, mae defnydd a dealltwriaeth dda o eirfa bwnc, ynghyd â chydweithio da mewn parau a grwpiau. Mewn nifer fechan ond sylweddol o wersi, mae islif o siarad oddi-ar-y-dasg sy'n arafu tempo'r addysgu.



Mewn ychydig o achosion, mae disgyblion yn gweiddi'r ymatebion allan mewn modd amhriodol.

67. Yn gyffredinol, mae medrau darllen yn dda. Mae'r rhan fwyaf yn darllen yn uchel yn gywir â llithrigrwydd ac mae disgyblion abl yn darllen â mynegiant. Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth eglur o'r hyn a ddarllenir. Mae disgyblion yn ymgymryd ag ymchwil yn aml, ond dim ond ychydig sy'n darllen am bleser yn yr ysgol.
68. Mae ysgrifennu fel arfer yn estynedig ac wedi'i strwythuro'n dda, pan fo'r angen. Mae medrau technegol a chyflwyno yn aml yn dda. Mae disgyblion abl yn cyflawni safonau da, ond mae nifer sylweddol o fechgyn, fel arfer o allu canolig i isel, yn gadael gwaith heb ei orffen. Nid ydynt yn drafftio eu gwaith yn effeithiol, ac felly mae'r cyflawniad yn wael, a gadewir gwallau sillafu, atalnodi a gramadeg heb eu cywiro.
69. At ei gilydd, mae gan fedrau rhifiadol disgyblion ar draws cyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 nodweddion da sy'n gorbwyso diffygion. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae tystiolaeth o safonau da. Mae gan nifer fechan o ddisgyblion ddifffyg hyder yn eu galluoedd rhifiadol. Maent yn cael anhawster wrth ddefnyddio a chymhwyso rhif mewn sefyllfaoedd bob-dydd.
70. Mae gan yr ysgol bolisi rhifedd drafft. Mae grwpiau o ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol wedi'u canfod. Mae'r disgyblion hyn naill yn derbyn cymorth oddi wrth ddisgyblion B11 adeg cofrestru, neu oddi wrth athrawon sy'n eu cymryd allan o'u dosbarthiadau arferol. Mae cynnydd cyfyng wedi'i wneud wrth gydlynu fframwaith ar gyfer mynd i'r afael â'r medrau rhifiadol sydd eu hangen mewn pynciau ar draws y cwricwlwm.
71. Nid yw polisi'r ysgol o addysgu technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar draws y cwricwlwm yn B8 a B9 yn paratoi disgyblion yn dda ar gyfer ei ddefnydd yn rhan fwyaf y pynciau. Mae safonau yn amrywio'n eang o bwnc i bwnc. O'r pynciau a arolygwyd, mae safonau mewn dylunio a thechnoleg yn dda gyda nodweddion eithriadol yn y ddau gyfnod allweddol. Mewn gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 4, ac mewn cerddoriaeth yn y ddau gyfnod allweddol, mae rhai nodweddion da, ond mae diffygion mewn meysydd pwysig. Yn y pynciau sy'n weddill, mae nodweddion da yn gorbwyso diffygion. Cyfyng yw'r mynediad sydd gan ddisgyblion i gyfrifiaduron y tu allan i wersi, ac anfynych y cânt eu cyfarwyddo mewn llawer o bynciau i ddefnyddio TGCh i fwyhau safonau. Gwneir defnydd annigonol o TGCh i gynorthwyo disgyblion ag anghenion addysgu arbennig.
72. Mae gan ddatblygiad medrau dwyieithog disgyblion nodweddion da sy'n gorbwyso diffygion. Mae'r rhan fwyaf yn dilyn Cwrs TGAU Iaith Gymraeg yng nghyfnod allweddol 4, ond cyfyng yw eu defnydd achlysurol o'r iaith o gwmpas yr ysgol.

## **Cynnydd disgyblion mewn dysgu**

73. Mewn tua thraean o'r gwersi a welwyd yn y chwe phwnc yr arolygwyd, mae safonau yn dda a dim diffygion pwysig. Esiamplau o'r nodweddion da yw pan fo disgyblion yn :
- defnyddio terminoleg neu eirfa gywir;
  - atgofio dysgu blaenorol yn gywir;
  - deall y wybodaeth neu'r cysyniadau newydd a ddysgwyd yn y wers;
  - cynhyrchu gwaith ymarferol o ansawdd dda;
  - defnyddio TGCh yn effeithiol, a hefyd
  - gwneud cynnydd da gydol y wers.
74. Roedd gan un wers ym mhob chwech nodweddion da, ac roedd rhai ohonynt yn eithriadol. Esiamplau o'r nodweddion eithriadol hyn yw:
- gallu disgyblion i egluro a chyfiawnhau eu barn eu hunain;
  - gwaith sy'n aml yn greadigol ac arloesol;
  - gwaith ymarferol o ansawdd uchel iawn, a hefyd
  - disgyblion yn gweithio'n annibynnol yn llwyddiannus iawn.
75. Roedd diffygion mewn nifer o wersi, ac roedd rhai ohonynt yn rhai pwysig. Yn y gwersi hyn:
- mae mwyafrif y disgyblion yn methu gwneud cynnydd digonol;
  - mae gormod o ddisgyblion yn ddisylw, gyda llawer ohonynt yn siarad pan ddylent fod yn dawel;
  - mae medrau ymarferol yn wael, a hefyd
  - mae gormod o waith heb ei gwblhau yn llyfrau'r disgyblion.
76. Mae amrywiadau ar draws y cwricwlwm yn y graddau y mae disgyblion yn deall eu cryfderau a'u gwendidau eu hunain, ac felly eu gallu i wneud penderfyniadau ynglŷn â'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella.
77. Mae rhan fwyaf y disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd da, ac maent yn cyflawni'n dda parthed eu gallu.

## **Datblygiad sgiliau personol, cymdeithasol a dysgu disgyblion**

78. Mae gan fwyafrif y disgyblion agwedd gadarnhaol tuag at yr ysgol a'i gwaith ysgol. Mae lleiafrif yn llai ymroddedig, ac nid oes gan rai'r uchelgais i lwyddo.
79. At ei gilydd, mae disgyblion yn arddangos ymddygiad da tuag at ei gilydd a thuag at oedolion. Ni welwyd unrhyw fwlio yn digwydd yn ystod yr arolygiad, ac roedd disgyblion yn hyderus y buasai unrhyw ddigwyddiadau yn cael eu delio â hwy yn brydlon ac effeithiol. Ar draws yr ysgol, mewn lleiafrif o wersi, mae disgyblion yn siarad â'i gilydd pan ddylent fod yn gwrando neu'n gweithio. Mae hyn yn effeithio ar dempo a dilyniant gwersi, ac mae'n rhwystro cynnydd.
80. Lefel presenoldeb at ei gilydd yw 89% ar gyfartaledd, sy'n is na thargedau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r ysgol yn gweithio'n galed ynghyd â'r Gweithiwr Cymdeithasol Addysgol i wella'r ffigurau hyn. Mae gweithdrefnau da

yn eu lle i fonitro presenoldeb, gyda disgyblion unigol yn cael eu targedu os yw eu presenoldeb yn disgyn yn is na 90% unrhyw fis. At ei gilydd, mae'r disgyblion yn brydlon ar ddechrau'r diwrnod ysgol ac amserau-gwersi unigol.

81. Mae mwyafrif y disgyblion yn dangos dealltwriaeth dda o faterion sy'n ymwneud â chyfle cyfartal, ac maent yn sensitif i amryfalaeth oddi mewn i gymdeithas.
82. Paratwir disgyblion yn dda ar gyfer eu rolau at y dyfodol, mewn gwaith, mewn addysg ac yn y gymuned, ond nid yw eu sgiliau dysgu-annibynnol wedi'u datblygu'n llawn.
83. Yn gyffredinol, mae medrau datrys-problemau a medrau creadigol yn gyffredinol dda, ond mae diffygion am nad yw disgyblion yn eu defnyddio yn gyson trwy holl ystod y pynciau.
84. Mewn celf, dylunio a thechnoleg a rhai gwersi mewn drama a cherddoriaeth, mae disgyblion yn dangos blaengarwch ac annibyniaeth pan fônt yn ymchwilio ystod o dasgau penagored. Mae eu syniadau, canlyniadau a'u deilliannau yn arddangos lefel uchel o ddealltwriaeth, dawn a gwreiddioldeb.
85. At ei gilydd, mae'r gallu i weithio gydag eraill yn dda. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn rhyngweithio'n dda mewn parau a grwpiau bychain. Yn y sefyllfaoedd hyn, maent yn rhannu syniadau ac adnoddau yn fodlon, ac maent fel arfer yn barchus ac yn gynorthwyol i'w gilydd.
86. Tra bod nifer o ddisgyblion a myfyrwyr yn dda wrth adolygu eu cynnydd eu hunain, mae lleiafrif sylweddol sy'n ymddwyn yn llai cyfrifol ac maent yn fwy amharod i gymryd camau i wella eu dysgu a'u perfformiad eu hunain.

### Chweched dosbarth

Pwnc	Chweched dosbarth
Cymraeg iaith-gyntaf	Dd/G
Saesneg	2
Gwyddoniaeth	3
Dylunio a thechnoleg	2
Cerddoriaeth	3
Addysg gorfforol	3

(am eglurhad o'r graddau, cyfeirier at ddechrau'r adroddiad)

87. O gymharu â'r arolygiad blaenorol, mae rhan fwyaf y pynciau wedi cynnal eu safon flaenorol.
88. Y safonau mae myfyrwyr wedi'u cyflawni, yn y gwahanol gyfnodau, yn y chwe phwnc a arolygwyd oedd:

15 gwrs	Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
Chweched dosbarth	0%	53%	47%	0%	0%

(am eglurhad o'r graddau, cyfeirier at ddechrau'r adroddiad)

89. Tra bod dros hanner y safonau a welwyd yn dda a dim diffygion pwysig, nid oedd gan un ohonynt nodweddion eithriadol.

### **Llwyddiant myfyrwyr wrth gyrraedd nodau dysgu cytûn**

90. Prif nodweddion cyrhaeddiad ôl-16 yw:
- mae cyfran y myfyrwyr sy'n cael Graddau A i C ar y lefel uwch yn is na chyfartaleddau cenedlaethol a lleol ac mae'n arddangos amrywiadau blynyddol sylweddol, a hefyd
  - mae'r sgôr pwyntiau a geir ar gyfartaledd gan fyfyrwyr yn is na chyfartaleddau lleol a chenedlaethol.
91. Mae sgiliau cyfathrebu myfyrwyr yn dda. Mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n dda a chyfrannu'n ystyrlon i drafodaethau. Tra bod ysgrifennu'n dda, mae peth o'r gwaith yn ddiffygiol o ran strwythur a dyfnder priodol. Mae myfyrwyr yn darllen â dealltwriaeth, ac mae llawer yn darllen am bleser.
92. Mae medrau rhifiadol yn dda, ac fe'u defnyddir yn effeithiol mewn nifer o bynciau.
93. Mae gan fyfyrwyr fynediad cyfyng i TGCh ac mewn llawer o bynciau, gwneir defnydd annigonol ohono i gefnogi eu hastudiaethau. Fodd bynnag, mae safonau yn eithriadol mewn dylunio a thechnoleg, ac yn y pynciau eraill a arolygwyd, mae nodweddion da yn gorbwyso diffygion.

### **Datblygiad medrau personol, cymdeithasol a dysgu myfyrwyr**

94. Mae gan fyfyrwyr agweddau cadarnhaol at eu gwersi ac at yr ysgol. Mynegodd llawer ddymuniad i gael ymwneud mwy cynhyrchiol ym mywyd a gwaith yr ysgol.
95. Mae ymddygiad yn dda yn y chweched dosbarth. Mae myfyrwyr yn gwrtais a moesgar.
96. Lefel presenoldeb ar gyfartaledd dros y tri thymor diwethaf oedd 93% sy'n dda ac yn uwch na'r targedau a osodir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Yn gyffredinol, mae myfyrwyr yn cyrraedd eu gwersi yn brydlon.
97. Mae myfyrwyr yn cydweithio'n dda â'i gilydd. Maent yn arddangos agweddau hyderus a medrau datrys-problemau hyfedrus. Mae esiamplau neilltuol o dda i'w gweld mewn celf, dylunio a thechnoleg, ac astudiaethau theatr, lle mae syniadau, atebion a deilliannau yn aml yn arloesol a chreadigol.
98. Mae nifer o fyfyrwyr yn cymryd y camau angenrheidiol i weithio'n annibynnol a gwella eu cynnydd eu hunain. Mae eraill fodd bynnag, nad oes ganddynt y diddordeb na'r cymhelliad i wella eu dysgu a'u perfformiad eu hunain.
99. Mae'r rhan fwyaf wedi'u paratoi'n dda ar gyfer eu rolau at y dyfodol mewn addysg neu waith, ac mae ganddynt werthoedd cadarnhaol ar faterion yn ymwneud â chyfle cyfartal ac amryfalaeth mewn cymdeithas.

## Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?**

### Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion

100. Mae'r radd a ddyfarnwyd gan y tîm arolygu yn cytuno â'r radd a ddyfarnwyd gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.

### Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4

**Pa mor dda mae addysgu a hyfforddiant yn cwrdd ag anghenion dysgwyr a gofynion y cwricwlwm a'r cwrs?**

101. Mae'r tabl canlynol yn dangos y graddau a ddyfarnwyd am ansawdd addysgu ac asesu yn y gwersi yr arsylwyd arnynt yn ystod yr arolygiad:

115 gwrs	Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
Cyfnod Allweddol 3	16%	41%	30%	13%	0%
Cyfnod Allweddol 4	13%	25%	51%	9%	2%
<b>Ar y cyd</b>	<b>15%</b>	<b>35%</b>	<b>38%</b>	<b>11%</b>	<b>1%</b>

102. Ers yr arolygiad diwethaf, mae gwelliant amlwg wedi bod yn nifer y gwersi y dyfarnwyd eu bod yn dda gyda rhai nodweddion eithriadol (Gradd 1), ond cynnydd hefyd yn nifer y gwersi â diffygion pwysig (Gradd 4).

103. Lle dyfarnwyd bod yr addysgu'n dda gyda nodweddion eithriadol, roedd hyn:

- am fod gan athrawon wybodaeth bwnc manwl a sicr;
- am fod athrawon wedi cyflwyno gwersi lle'r oedd y tempo a lefel yr her yn uchel ac wedi'u cynnal gydol y wers;
- am fod athrawon wedi gosod cwestiynau a wnaeth herio ac ymestyn dealltwriaeth disgyblion;
- am fod gan athrawon berthynas weithiol gadarnhaol gyda'r disgyblion a oedd yn creu awyrgylch ar gyfer dysgu yn yr ystafell ddosbarth;
- am fod athrawon wedi egluro gwaith newydd yn eglur ac effeithiol;
- am fod athrawon wedi cynllunio eu gwaith yn fanwl iawn; a hefyd
- am fod athrawon wedi monitro eu disgyblion yn agos gan ddefnyddio asesiadau a thargedau manwl er mwyn cynorthwyo disgyblion i wybod a deall sut y gallent wella.

104. Ychydig dros draean o'r gwersi yr arsylwyd arnynt oedd yn dda a dim diffygion pwysig (Gradd 2). Mae'r rhestr ganlynol yn dangos rhai esiamplau o nodweddion da'r addysgu sy'n amlwg, i raddau amrywiol, ar draws y cwricwlwm.

- cyflawnwyd y dysgu hwn gan athrawon a oedd yn deall defnyddiau eu pwnc;

- rhoddodd athrawon esboniadau eglur o'r amcanion dysgu ar ddechrau gwersi a gwnaethant adolygu dysgu disgyblion mewn sesiynau llawn;
  - darparodd athrawon wersi strwythuredig a gynlluniwyd yn ofalus, a aeth yn eu blaen gyda thempo a phwrpas priodol, ac a roddodd gymorth i ddisgyblion gyflawni;
  - monitrodd athrawon gynnydd disgyblion unigol yn dda, a rhoi cefnogaeth dda iddynt;
  - gwnaeth athrawon ddefnydd da o gwestiynu er mwyn gwirio gwybodaeth a dealltwriaeth;
  - integreiddiodd athrawon fedrau allweddol yn effeithlon i mewn i wersi, a hefyd
  - rhoddodd athrawon anogaeth i'r holl ddisgyblion er mwyn sicrhau cyfle cyfartal a chodi ymwybyddiaeth o amryfalaeth sgiliau bywyd, diwylliannau a chredau.
105. Roedd diffygion yn y gwersi a oedd yn weddill, ac roedd rhai ohonynt yn rhai pwysig. O blith y rhain mae:
- tempo araf nad oedd yn herio disgyblion i gyflawni cystal ag y medrent;
  - gweithrediad anghyson o bolisi Gwobrau a Sancsiynau'r ysgol. Cyfyngwyd ar gynnydd gan reolaeth aneffeithiol o ymddygiad disgyblion yn y dosbarth;
  - gwersi nad oedd wedi'u cynllunio'n dda ac nad oedd yn darparu'n briodol ar gyfer dysgu disgyblion o bob gallu, a hefyd
  - addysgu a oedd ond weithiau yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dwyieithog.
106. Mae'r addysgu yn hyrwyddo materion sy'n ymwneud â chyfle cyfartal, hil ac anabled mewn modd effeithiol.

### **Llymder asesu a'i ddefnydd wrth gynllunio a gwella dysgu**

107. Mae gan yr arfer cyfredol nodweddion da sy'n gorbwyso diffygion am fod adrannau ac athrawon:
- yn gyfarwydd â chronfa ddata'r ysgol sy'n cynnwys canlyniadau o ystod eang o brofion safonedig, a gwybodaeth am arddulliau dysgu o ddewis;
  - yn cynhyrchu graddau a lefelau blynyddol cynorthwyol ar gyfer pob disgybl ym mhob grŵp oed;
  - yn defnyddio'r gronfa ddata yn effeithiol ar gyfer canfod disgyblion ag anghenion arbennig;
  - yn profi disgyblion bob tymor, a defnyddio'r canlyniadau ar gyfer diweddarau cronfa ddata'r ysgol;
  - yn sicrhau y diwellir gofynion byrddau arholi, asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Côt Ymarfer;
  - yn dadansoddi canlyniadau arholiadau allanol, a thrafod canfyddiadau mewn adolygiadau adrannol llym blynyddol gyda'r tîm arweinyddiaeth;
  - yn defnyddio'r data asesu i gynllunio gwersi a chynlluniau gwaith mewn rhai pynciau, a hefyd
  - adolygu cynnydd disgyblion dros amser, a defnyddio'r wybodaeth i gwblhau adroddiadau pwnc blynyddol ar gyfer disgyblion a rhieni.

108. Mae amrywiaeth eang o ran ansawdd rhai agweddau o asesu. Er enghraifft, nid yw'r holl athrawon nac adrannau:
- yn cynhyrchu polisiau i ategu gweithdrefnau ysgol;
  - yn gosod tasgau gwaith-cartref yn rheolaidd, cofnodi canlyniadau na nodi cwblhau gwaith cartref;
  - yn defnyddio data a gwybodaeth yn effeithiol i fonitro cyflawniad;
  - yn egluro amcanion meini prawf dysgu ac asesu i ddisgyblion mewn iaith y maent yn ei deall;
  - yn rhoi ymwneud i ddisgyblion mewn hunan-arfarnu, er mwyn iddynt ddeall eu cryfderau a'u hanghenion eu hunain;
  - hysbysu disgyblion am yr hyn sydd angen iddynt ei wneud yn ddigon manwl, na chwaith
  - cymedroli gwaith-cwrs a gwaith arall yn aml ac yn gywir.
109. Mae penaethiaid-blwyddyn a rheolwyr cyfnod-allweddol yn archwilio adroddiadau cynnydd er mwyn canfod disgyblion sydd wedi methu â gwneud gwaith cartref mewn tri phwnc neu fwy. Pan ganfyddir y rhain, gweithredir ar hyn, a hysbysir rhieni. Mae'r athrawon hyn yn trafod cynnydd yn yr holl bynciau gyda disgyblion dair gwaith y flwyddyn, a rhoi ymwneud i ddisgyblion wrth osod targedau ar gyfer gwelliant. Maent hwy a'r tîm arweinyddiaeth yn mentora disgyblion B11 sy'n tangyflawni, ac maent yn trefnu mentoriaid allanol ar gyfer disgyblion a ganfuwyd yn B10. Ar adegau priodol, maent yn crynhoi cyflawniad mewn adroddiadau blynyddol, a chwrdd â rhieni a gofalwyr i drafod cynnydd.
110. Paratôdd aelodau'r grŵp arweinyddiaeth bolisi ysgol-gyfan priodol a chynllun marcio er mwyn cyfarwyddo staff-pwnc a bugeilio. Maent yn defnyddio eu rôl gyswllt i gynorthwyo adrannau a monitro arfer. Maent yn trafod canlyniadau arholiadau allanol gyda phenaethiaid adrannau, er mwyn adolygu cynnydd a gosod targedau newydd sy'n heriol ond yn gyflawnadwy. Swyddogaeth bwysig yw sicrhau fod y data defnyddiol ar gael ac yn hygyrch i'r holl staff, ac y defnyddir y data i arfarnu perfformiad adrannol.
111. Mae'r tîm arweinyddiaeth yn canfod arfer da a defnyddio'r wybodaeth er mwyn cynllunio ar gyfer datblygiadau at y dyfodol. Maent yn dyrannu amser mewn diwrnodau hyfforddi-staff i rannu'r arfer da hwn. Tair gwaith y flwyddyn, addasir amserlen yr ysgol er mwyn caniatáu i diwtoriaid dosbarth gael ymwneud wrth fonitro cynnydd disgyblion ym mhob pwnc.

## ÔI-16

### **Pa mor dda mae addysgu a hyfforddiant yn cwrdd ag anghenion dysgwyr a gofynion y cwricwlwm a'r cwrs?**

112. Mae'r tabl canlynol yn dangos y graddau a ddyfarnwyd ar gyfer ansawdd yr addysgu a'r asesu yn y gwersi yr arsylwyd arnynt yn ystod yr arolygiad.

24 gwrs	Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
ÔI-16	8%	50%	42%	0%	0%

113. Mae'r nodweddion da a ganfuwyd yn yr addysgu yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 hefyd yn bresennol yn rhan fwyaf y gwersi chweched dosbarth. Yn ogystal:
- anogodd athrawon y myfyrwyr i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol, a hefyd
  - rhoddodd athrawon gymorth effeithiol ac adborth o ansawdd uchel i fyfyrwyr unigol, a sicrhodd hyn y gwnaed cynnydd priodol.
114. Roedd diffygion a ganfuwyd yn ystod yr arsylwadau'n cynnwys:
- gorddibyniaeth ar y defnydd o nodiadau;
  - dim disgwyl i fyfyrwyr ymgymryd â dadansoddiad treiddiol o faterion a chysyniadau;
  - lefel o her a thempo nad oedd yn ddigon ymdrechgar ar adegau.

### **Llymder asesu a'i ddefnydd mewn cynllunio a gwella dysgu**

115. Mae gan asesu, cofnodi a chyflwyno adroddiadau ar waith myfyrwyr nodweddion da sy'n gorbwysio diffygion am fod athrawon:
- fel arfer yn ysgrifennu sylwadau llym ar waith sy'n dangos i ddisgyblion sut y gallant wella;
  - fel arfer yn rhoi adborth llafar da;
  - yn gosod targedau diwedd blwyddyn ar gyfer pob myfyriwr ym mhob pwnc. Rhennir y targedau gyda phennaeth y chweched-dosbarth;
  - yn cynhyrchu graddau-cynnydd ddwywaith y flwyddyn ar gyfer disgyblion B12 ac unwaith y flwyddyn ar gyfer y rhai hynny yn B13, a hefyd
  - yn ysgrifennu sylwadau-pwnc cynorthwyol ar adroddiadau ar gyfer myfyrwyr a rhieni.
116. Mae diffygion mewn arfer megis:
- defnydd annigonol o ddata-cynnydd gan diwtoriaid, penaethiaid-blwyddyn, a phennaeth y chweched-dosbarth er mwyn sicrhau canfod tangyflawni'n gynnar, a hefyd
  - nid oes unrhyw raglen strwythuredig er mwyn i staff bugeiliol adolygu cynnydd gyda myfyrwyr.



**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae'r profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?**

**Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwysio diffygion**

117. Yn ei hunan-arfarnu, dyfarnodd yr ysgol radd 2 i'w hun am y cwestiwn hwn. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyfateb i ran fwyaf y dyfarniadau a wnaed gan yr ysgol. Fodd bynnag, mae nifer o ddiffygion, gan gynnwys methu â darparu gweithred feunyddiol o addoliad i'w holl ddisgyblion. Mae hwn yn ddiffyg pwysig.

**Y graddau y mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a buddiannau dysgwyr**

118. Yn gyffredinol, mae'r ysgol yn diwallu anghenion-dysgu disgyblion, ac yn adlewyrchu'r nodau a osodir allan ar gyfer disgyblion oed-ysgol statudol yn Neddf Addysg 1996.

119. At ei gilydd, mae'r cwricwlwm yn caniatáu mynediad cyfartal i ddisgyblion o bob gallu. Anogir disgyblion i gyflawni llwyddiant ym mhob cyfnod allweddol.

120. Mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn cael cyfleoedd i gael cymwysterau yn TGAU, Lefel Mynediad a Chynllun-Gwobr Uned AQA. Mae mynediad i'r chweched dosbarth yn agored i bob disgybl; maent yn cael cyfleoedd i gael cymwysterau ar lefelau AS ac A2. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gyfleoedd i astudio cyrsiau galwedigaethol a chael y cymwysterau priodol.

121. Yn gyffredinol, mae'r cwricwlwm yn eang a chytbwys ac mae'n diwallu'r holl ofynion statudol ym mhob cyfnod allweddol. Mae rhai nodweddion da:

- addysgir drama fel pwnc ar wahân yn B8 a B9;
- mae mwyafrif llethol y disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn astudio'r Gymraeg fel cwrs TGAU llawn;
- cyflwynir addysg bersonol, cymdeithasol ac iechyd gan dîm arbenigol o athrawon, a hefyd
- cynhwysir Meddwl Beirniadol ar lefel AS yn y rhaglen opsiynau cyfnod allweddol.

122. Mae rhai diffygion:

- er y dysgir technoleg gwybodaeth fel pwnc ar wahân yn B7, nid oes unrhyw barhad darpariaeth yng ngweddill y cyfnod allweddol, a hefyd
- nid oes unrhyw gyrsiau galwedigaethol ar hyn o bryd.

123. Mae'r ysgol wedi cael y Marc Ansawdd Sgiliau Sylfaen, ac mae'n gweithio i ddatblygu medrau allweddol disgyblion. Fodd bynnag, mae anghysondebau yn effeithiolrwydd y gwaith ar draws y cwricwlwm.

124. Yn ogystal, canfuwyd nifer o faterion amserlennu yn ystod yr arolygiad, sy'n effeithio ar barhad a safonau. Addysgir nifer o ddisbarthiadau gan fwy nag un athro/athrawes, ac yn aml, mae anghydbwysedd yn nosbarthiad y gwersi yn yr

amserlen wythnosol. Cyfyngir ar setio mewn rhai pynciau gan drefniadau'r amserlen.

125. Mae gan ystod y gweithgareddau allgyrsiol ar gyfer pob blwyddyn nodweddion da sy'n gorbwyso diffygion. Mae cynrychiadau'r ysgol yn llwyddiannus iawn ac maent yn cwmpasu nifer fawr o ddisgyblion a myfyrwyr. Mae disgyblion a myfyrwyr yn elwa o ymweld ag orielau, theatrau, ymweliadau maes mewn daearyddiaeth a thaith sgïo. Fodd bynnag, mae'r cyfleoedd cyfyng mewn gweithgareddau cerddorol, peniannau chwaraeon rheolaidd a chlybiau'n cwrdd yn ystod yr awr ginio yn ddiffyg.
126. Mae gan ddarpariaeth yr ysgol er mwyn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr nodweddion da sy'n gorbwyso diffygion. Y nodweddion da yw:
  - mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos parch at ei gilydd, oedolion, amgylchedd yr ysgol ac ymwelwyr â'r ysgol;
  - mae rhan fwyaf y disgyblion yn cydweithio'n dda mewn gwersi;
  - mae perthynas trwy'r ysgol drwyddi-draw yn dda;
  - anogir disgyblion a myfyrwyr i fynegi barn a lleisio pryderon trwy Gyngorau-Blwyddyn a'r Cyngor-Ysgol;
  - mae disgyblion yn ymwybodol o ddiwylliannau Cymru mewn llawer o bynciau, a hefyd
  - mae cyfleoedd ar gael trwy ddiwrnodau ymwybyddiaeth amlddiwylliannol i astudio diwylliannau eraill.
127. Fodd bynnag, canfuwyd diffygion:
  - ychydig o gyfleoedd sydd gan fyfyrwyr yn y chweched-dosbarth i gymryd cyfrifoldeb a chynorthwyo eraill;
  - mae lleiafrif o ddisgyblion yn dangos diffyg parch at eraill trwy darfu ar eu gwersi;
  - nid oes unrhyw gydaddoli mewn llawer o grwpiau tiwtor, a hefyd
  - ni chynllunnir ar gyfer y dimensiwn ysbrydol ar draws rhai pynciau.
128. Mae partneriaeth effeithiol gyda rhieni, y gymuned, ysgolion cynradd sy'n bwydo, ysgol uwchradd leol a chyflogwyr, yn sicrhau cyfoethogi da o brofiadau dysgu disgyblion. Nodweddion da'r partneriaethau hyn yw:
  - y cysylltiadau cynnar a sefydlwyd gydag ysgolion cynradd sy'n bwydo gan sicrhau trosglwyddiad esmwyth o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3;
  - prosiectau-trosglwyddo a chysylltiadau adrannol gydag ysgolion cynradd unigol;
  - ystod y wybodaeth a ddarperir ar gyfer rhieni ar ffurf taflenni newyddion, llyfrynau-opsiwn ac adroddiadau;
  - ymwneud disgyblion mewn gweithgareddau cymunedol a gwyliau, a hefyd
  - cysylltiadau gydag Outback Expeditions, sy'n rhoi cyfle i ddisgyblion a myfyrwyr i brofi alldeithiau tramor heriol.
129. Ar hyn o bryd, nid yw'r cyswllt gyda choleg lleol wedi'i ddatblygu'n llawn, ac nid yw'n darparu cyfleoedd galwedigaethol i ddisgyblion.

130. Mae gan yr ysgol gysylltiadau da a hir-sefydlog gyda sefydliadau hyfforddiant cychwynnol athrawon. Mae myfyrwyr-athrawon yn aml yn cyflwyno persbectif gwahanol ar addysgu pwnc, ac maent yn gymorth i ehangu profiadau disgyblion.
131. Mae rhaglenni ar gyfer addysg bersonol, iechyd a chymdeithasol, addysg gysylltiedig-â-gwaith ac addysg a chyfarwyddyd gyfaol yn cwrdd â chanllawiau cenedlaethol, ac maent wedi'u cynllunio'n dda i'r cwricwlwm.

### **Y graddau y mae profiadau dysgu yn ymateb i anghenion cyflogwyr a'r gymuned ehangach**

132. Ym mhob cyfnod allweddol, mae'r ysgol yn darparu addysg gysylltiedig-â-gwaith dda, ac mae'n ymateb i ran fwyaf o anghenion cyflogwyr a'r gymuned ehangach. Mae'r nodweddion da yn cynnwys:
  - partneriaeth gadarn gyda Gyrfaedd Cymru gan ddarparu cyfarwyddyd unigol sy'n sicrhau y gall disgyblion wneud dewisiadau opsiwn gwybodus yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched-dosbarth;
  - profiad gwaith a drefnwyd yn dda ar gyfer B10 a B12;
  - cyfarwyddyd effeithiol er mwyn herio ystrydebu ar sail cenedl;
  - sesiynau dad-friffio gwerthfawr ac adborth llawn gwybodaeth, a ffocyswyd yn dda oddi wrth gyflogwyr ar ôl profiad gwaith;
  - prosiect Dynamo a Business Dynamics sy'n galluogi disgyblion yn B9 i gwrdd a gwrandao ar ystod eang o entrepreneuriaid, a hefyd
  - y cyfle i ddisgyblion yn B12 i gymryd rhan mewn cystadlaethau peirianeg a gweithgareddau menter, gyda llwyddiant sylweddol.
133. Mae ychydig o ddiffygion:
  - mewn rhai pynciau, mae pwyslais annigonol ar weithgareddau datrys-problemau da, a hefyd
  - nid yw cyflogwyr yn ymwneud yn rheolaidd wrth fentora disgyblion na chynnal ffug-gyfweliadau ar gyfer darpar-ddechreuwr mewn addysg-uwch a chyflogaeth amser-llawn.
134. Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm cynhwysfawr ar gyfer disgyblion Cymraeg iaith-gyntaf ac ail-iaith ym mhob cyfnod allweddol. Mae disgyblion ail-iaith yn dilyn y cwrs llawn yng nghyfnod allweddol 4, gyda'r mwyafrif llethol yn cael eu cofrestru ar gyfer arholiad TGAU.
135. Trefnir llawer o weithgareddau allgyrsiol gan yr Adran y Gymraeg ar gyfer pob cyfnod-allweddol er mwyn helpu datblygu hyder dwyieithog a medrau disgyblion a myfyrwyr. Mae B7 yn mynychu cwrs-preswyl yng Nglan Llyn a threfnir ymweliadau eraill i'r theatr a mannau eraill. Mae eisteddfod yr ysgol yn ddigwyddiad blynyddol pwysig yng nghalendr yr ysgol, ac mae pob adran yn gwneud cyfraniad. Mae arwyddion ac arddangosfeydd dwyieithog o gwmpas yr ysgol ac mae holl ohebiaeth yr ysgol gyda rhieni yn ddwyieithog. Cynhelir gwersi tiwtorial yn Gymraeg ar gyfer disgyblion iaith-gyntaf.
136. Ymgwymerwyd ag awdit manwl er mwyn canfod yr amrywiol dulliau yr eir i'r afael â'r Cwricwlwm Cymreig ar draws yr holl feysydd cwricwlaidd. Mae mwyafrif yr

adrannau yn integreiddio agweddau o'r Cwricwlwm Cymreig yn llwyddiannus i'w cynlluniau gwaith.

137. Mae rhai nodweddion da wrth hyrwyddo ymwybyddiaeth o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae'r rhain yn cynnwys:
  - polisi ysgol ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang;
  - eco-gyngor gyda chynrychiolwyr o bob blwyddyn;
  - sylw da yng nghynlluniau gwaith daearyddiaeth, addysg bersonol, cymdeithasol ac iechyd, a gwyddoniaeth, a hefyd
  - cymorth ariannol oddi wrth y clwb Rotary lleol i gynnal prosiect ailgylchu.
138. Ar hyn o bryd, mae'r blaengarwch ar gam embryonig gyda chynlluniau i wella amgylchedd yr ysgol yn y dyfodol.
139. Mae'r ysgol yn gyffredinol llwyddiannus wrth sicrhau fod y disgyblion a'r myfyrwyr yn caffael y wybodaeth, dealltwriaeth, medrau ac agweddau priodol i gynnydd. Mae agweddau o'r cwricwlwm, addysg gysylltiedig â gwaith a datblygiad sgiliau entrepreneuriaidd yn sicrhau fod profiadau dysgu yn adlewyrchu rhai o'r blaenoriaethau cenedlaethol.
140. Mae diffygion yn absenoldeb cyrsiau galwedigaethol yn y cwricwlwm, y rhaglen allgyrsiol gweddol fach, a chyfleoedd annigonol i ddisgyblion a myfyrwyr ddatblygu fel dysgwyr annibynnol.

**Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y chyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?**

**Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

141. Mae'r radd a ddyfarnwyd gan y tîm arolygu yn cytuno â'r radd a ddyfarnwyd gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.

**Ansawdd y gofal, cymorth a chyfarwyddyd i ddysgwyr**

142. Mae ansawdd y gofal, cymorth a chyfarwyddyd i ddysgwyr yn dda, Mae gan yr ysgol dîm ymroddedig o athrawon a staff-cynorthwyol sy'n gwneud pob ymdrech i alluogi disgyblion i gyrraedd eu potensial. Maent yn cydweithredu'n agos ag asiantaethau allanol, er mwyn i ddisgyblion gael eu cyfeirio am gymorth pellach os oes ei angen.

143. Mae nodweddion da'r cymorth a ddarperir yn cynnwys:

- datblygu casglu a dadansoddi data a fydd yn galluogi penaethiaid-blwyddyn i ffocysu ar ddisgyblion sy'n tangyflawni;
- ymgynghori yn rheolaidd â rhieni a gofawyr a'u hysbysu ynglŷn â'r ysgol mewn amrywiaeth o ddulliau;
- cydweithrediad agos gyda Gyrfaoedd Cymru er mwyn cynorthwyo disgyblion i wneud dewisiadau gwybodus.;
- Polisi Diogelu Plant eglur a pherson enwebedig sy'n delio ag unrhyw faterion y cyflwynir adroddiad amdanynt;
- cyfundrefn dda o fonitro presenoldeb a phrydlondeb gyda'r gweithiwr cymdeithasol addysgol yn dilyn achosion pan fo'r angen;
- mae disgyblion yn teimlo y gallant siarad ag aelodau o staff ynglŷn ag unrhyw bryderon y mae'n bosibl sydd ganddynt;
- anogir bwyta'n iach;
- gweithdrefnau effeithiol ar gyfer delio gydag ymddygiad gormesol a bwlio, a hefyd
- rhaglen sefydlu a drefnwyd yn dda ar gyfer y prif ysgolion cynradd sy'n bwydo sy'n cwmpasu gwahanol adrannau yn yr ysgol.

144. Mae rhai diffygion, sef:

- er bod maes llafur addysg bersonol, cymdeithasol ac iechyd, yn diwallu canllawiau cenedlaethol, mae trefniadau'r amserlen ar gyfer y flwyddyn academaidd hon wedi golygu cyflwyniad tameidiog, ac felly mae peth dilyniant wedi'i gollu;
- nid yw rhai athrawon yn delio'n effeithiol gyda chamymddwyn is na'r cyffredin rhai disgyblion, ac felly amharir ar ddysgu eraill, a hefyd
- cyflwynwyd adroddiadau am rai materion iechyd a diogelwch i'r ysgol yn ystod yr arolygiad.

### **Ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol**

145. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion ychwanegol ac arbennig yn dda. Mae tîm mawr o gynorthwywyr cymorth-dysgu sydd wedi'u cymhwysu'n dda, yn ofalgar ac yn ymroddedig, sy'n gweithio dan arweinyddiaeth abl y cydlynedd anghenion addysgol arbennig. Maent yn gweithio'n agos gyda disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig, ar lefel unigol, ac wrth ddarparu cymorth yn-y-dosbarth.
146. Mae gan 33 o ddisgyblion ddatganiadau anghenion addysgol arbennig, mae 43 disgybl ar weithredu ysgol, ac 19 disgybl ar weithredu ysgol a mwy.
147. Mae nodweddion da'r ddarpariaeth yn cynnwys:
- mae'r gofal am ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig wedi'i drefnu'n dda, ac mae'n cwrdd â gofynion y Côd Ymarfer. Dosberthir cynlluniau addysgu ac ymddygiad unigol yn briodol i athrawon a chynorthwywyr cymorth-dysgu. Canfyddir anghenion-dysgu disgyblion wrth iddynt ddod i mewn gan ddefnyddio amrywiaeth o brofion. Ailbrofir disgyblion yn rheolaidd er mwyn monitro cynnydd;
  - cynhelir adolygiadau rheolaidd o'r rhaglenni hyn;
  - mae'r adran addysg gefnogol yn ysgrifennu ei gyrsiau gwobr achrededig ei hun ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu, ac mae'n cynnal cyrsiau rheoli-dicter llwyddiannus;
  - cydweithrediad agos rhwng yr ysgol ac Ysgol Plas Brondyffryn, gyda chyfnewidiadau disgyblion yn digwydd wrth i anghenion unigol godi;
  - bob wythnos, mae disgyblion ag anawsterau dysgu yn cael y cyfle i gawl gwersi marchogaeth sy'n gwella eu hyder a'u cydlynu, a hefyd
  - mae rhaglen cynorthwyo-rhifedd medrau sylfaenol wedi cychwyn yn ddiweddar, gan ddefnyddio disgyblion o B11 i gynorthwyo disgyblion yn B7.
148. Y diffygion yw:
- mae'r cyswllt rhwng yr athrawon cyswllt mewn amrywiol adrannau pwnc a'r adran addysg gefnogol ar sail anffurfiol, a hefyd
  - nid yw pob adran bwnc yn darparu gwaith ar y lefel gywir ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu nag ar gyfer y disgyblion mwy abl a dawnus yn eu gofal.

### **Ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer cyfle cyfartal**

149. Mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer cyfle cyfartal yn dda. Mae gan yr holl ddisgyblion fynediad llawn i'r cwricwlwm. Mae'r cwrs addysg bersonol, cymdeithasol ac iechyd yn darparu cyfleoedd i ddysgu am bobl o ddiwylliannau eraill, ac integreiddir disgyblion ac anabledau corfforol i fywyd yr ysgol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

### Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?

#### Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion

150. Mae'r radd a ddyfarnwyd gan y tîm arolygu yn cytuno â'r radd a ddyfarnwyd gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.

#### Pa mor dda mae arweinwyr a rheolwyr yn darparu cyfeiriad eglur a hyrwyddo safonau uchel?

151. Cyhoeddir nodau'r ysgol ym mhrosbectws yr ysgol a dogfennau ysgol eraill. Maent yn briodol ac maent yn cynnig cyfarwyddyd gwerthfawr wrth wneud-penderfyniadau.

152. Mae'r pennaeth, sydd yn ei hail flwyddyn yn yr ysgol yn darparu arweinyddiaeth dda. Mae hi'n derbyn cefnogaeth dda o'r tîm arweinyddiaeth. Maent wedi canfod yn gywir eu blaenoriaethau ar gyfer gwelliant ac maent yn mynd ar ôl y rhain yn weithredol.

153. Mae newidiadau a gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud i bolisïau a gweithdrefnau ysgol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, er enghraifft:

- mae'r llywodraethwyr bellach yn ymwneud yn llawn mewn trafodaeth a gwneud-penderfyniadau;
- mae dadansoddiad gwell o ddata arholiadau a phrofion;
- mae codau mwy llym yn bodoli bellach ar gyfer ffurfwisg ac ymddygiad disgyblion;
- mae hunan-arfarnu yn gwella;
- bellach, mae adrannau yn cyhoeddi cynlluniau da;
- mae'r grŵp arweinyddiaeth wedi'i ehangu'n briodol i gynnwys y pennaeth, y dirprwy-bennaeth a thri is-bennaeth, a hefyd
- mae coladu, dadansoddi a dosbarthu data'r ysgol yn gwella.

154. Erys diffygion am fod:

- amrywiaethau sylweddol yn ansawdd addysgu a dysgu;
- ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth bwnc yn amrywio;
- nid yw hunan-arfarnu naill yn ddigon llym na chynhwysfawr yn holl ardaloedd yr ysgol, ac ni ystyrir bob amser ei fod yn ganolog i welliant;
- mae materion parhaus sy'n ymwneud â'r cysondeb y gweithredir polisïau ar draws yr ysgol, a hefyd
- mae monitro cynnydd disgyblion yn anghyson.

155. Mae amrywiaethau eang o ran ansawdd arweiniad a rheolaeth ar draws adrannau pwnc a meysydd cyfrifoldeb eraill. Mae esiamplau o arfer da, ac weithiau arfer eithriadol. Esiamplau o'r rhain yw:

- cynlluniau datblygu eglur sydd wedi'u ffocysu'n dda;
- gweithdrefnau monitro da a hunan-arfarnu cywir;
- gweithdrefnau effeithiol iawn ar gyfer rheolaeth ddydd-i-ddydd addysgu a dysgu;
- marcio ac asesu da iawn sy'n mwyhau dysgu mewn modd cadarnhaol;
- hyrwyddiad effeithiol o faterion sy'n ymwneud â chyfle cyfartal;
- ffocws cadarn a chyson ar ansawdd addysgu a dysgu, a hefyd
- gweithrediad cyson o bolisïau cytûn yr ysgol.

156. Mae diffygion mewn rhai meysydd:

- mae cynlluniau datblygu yn ddiffygiol o ran eglurder pwrpas a chanfod blaenoriaethau priodol;
- nid yw monitro ac arfarnu ansawdd yr addysg a ddarperir yn ddigon llym nac aml;
- nid oes ffocws cyson ar ansawdd addysgu a dysgu;
- mae diffygion mewn marcio ac asesu, a hefyd
- nid yw polisïau ysgol yn cael eu gweithredu yn llym ac yn gyson.

157. Mae'r ysgol yn cymryd ystyriaeth o flaenoriaethau cenedlaethol, ond mae diffygion yn y cwricwlwm 14 i 19. Eir i'r afael â'r rhain mewn dogfennau cynllunio ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf, ond nid ydynt yn eu lle eto. Ar hyn o bryd nid oes ond ychydig o waith ar y cyd gydag ysgolion a cholegau eraill.

158. Mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer gosod targedau ar gyfer perfformiad mewn arholiadau yn gynyddol seiliedig ar y defnydd effeithiol o ddata rhagfynegol a chyflawniad go iawn disgyblion. Mae'r targedau sydd wedi'u gosod ar gyfer 2006 a 2007 yn ymddangos eu bod yn realistig a chyflawnadwy.

159. Canfyddir anghenion hyfforddi staff yn briodol trwy'r broses Rheoli Perfformiad. Mae'r hyfforddiant wedi'i reoli'n dda. Rhoddir cymorth da i athrawon sydd newydd gymhwyso ac athrawon dan hyfforddiant.

### **Y graddau y mae llywodraethwyr yn diwallu eu cyfrifoldebau**

160. Mae llywodraethwyr yn chwarae rôl gefnogol iawn ym mywyd yr ysgol. Mae ailsefydlu cysylltiadau rhanbarthol wedi cyfrannu at ddealltwriaeth uwch o'u rolau yn rheolaeth yr ysgol. Maent yn ymwneud â chynllunio strategol a monitro perfformiad yr ysgol.

161. Mae ystod briodol o bwyllgorau i ddelio â meysydd cyfrifoldeb penodol ac mae'r rhain a'r corff llywodraethol cyfan yn cwrdd yn rheolaidd.

162. At ei gilydd, mae'r llywodraethwyr yn diwallu eu gofynion rheolaethol a chyfreithiol.



**Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae'r arweinwyr a'r rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?**

**Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwysio diffygion**

163. Mae'r radd a ddyfarnwyd gan y tîm arolygu yn cytuno â'r radd a ddyfarnwyd gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.

**Pa mor effeithiol y monitirir ac yr arfarnir perfformiad yr ysgol?**

164. Mae adroddiad hunan-arfarnu'r ysgol, a rannwyd yn briodol gyda llywodraethwyr yn ddadansoddiad gonest a chywir o nodweddion da a diffygion yr ysgol.

165. Mae gan broses monitro a hunan-arfarnu'r ysgol nodweddion da sy'n cynnwys:

- mae penaethiaid-adrannau yn dadansoddi eu canlyniadau arholiad eu hunain ac fe'u cyfwelir gan y pennaeth er mwyn dod i gytundeb ynglŷn â llywddiannau a meysydd ar gyfer gwelliant;
- mae penaethiaid adrannau yn gorfod ysgrifennu adroddiad blynyddol i'r llywodraethwyr;
- y defnydd manwl o ddadansoddi data. Tra bod hwn yn newydd i'r ysgol, mae ei ddefnydd yn datblygu'n effeithiol;
- rheolwr-data sydd newydd ei benodi, sy'n cael effaith cadarnhaol ar wella'r defnydd o'r fath wybodaeth;
- penaethiaid-adrannau yn gwylio cydweithwyr yn dysgu fel rhan o Reoli Perfformiad;
- adolygiadau cynnydd sy'n seiliedig ar gyfundrefnau tracio ysgol-gyfan ac adrannol;
- model strwythuredig ar gyfer adolygiadau adrannol gan y pennaeth-adran;
- y tîm arweinyddiaeth yn adolygu adrannau yn fanwl yn ddwyflynyddol;
- arolygon o farn rhieni ar dopigau penodol megis gwaith-cartref a bwlio;
- rhai adroddiadau hunan-arfarnu adrannol sy'n fanwl ac yn gywir iawn, a hefyd
- diwylliant sy'n gwella, sy'n datblygu prosesau hunan-arfarnu.

166. Mae diffygion yn ansawdd hunan-arfarnu;

- hyd yn hyn, cyfyng yw'r defnydd effeithiol o ddata, yn enwedig gan rai penaethiaid-adrannau;
- cyfyng yw arsylwi ar addysgu o ran ei amllder a'i lymder;
- nid yw canfod a lledaenu arfer da wedi'i ddatblygu'n dda, a hefyd
- ar hyn o bryd, mae peth hunan-arfarnu adrannol yn ei gamau cynnar ac mae angen iddo ddatblygu mwy o lymder a chysondeb.

**Effeithiolrwydd cynllunio ar gyfer gwelliant**

167. Mae'r cynllun gwella ysgol ar gyfer 2005/2006 yn canfod fel ei brif flaenoriaethau:

- cyflawniad dysgwyr;
- addysgu, hyfforddi ac asesu;
- anghenion a buddiannau dysgwyr a'r gymuned ehangach;
- gofal, cyfarwyddyd a chymorth i ddysgwyr;

- arweinyddiaeth a rheolaeth;
- arfarnu a gwella ansawdd a safonau, a hefyd
- rheoli adnoddau'n effeithlon.

168. Mae'r rhain yn flaenoriaethau priodol a phwysig i'r ysgol.
169. Mae'r cynllun gwella yn canfod yr holl elfennau sydd eu hangen fel arfer yn y fath ddogfen. Mae gan gynllunio ar gyfer gwelliant rai nodweddion da. Ysgrifennwyd y cynllun gwella-ysgol cyfredol gan y pennaeth ar ddiwedd ei blwyddyn gyntaf yn yr ysgol, a dylanwadwyd arno gan ddadansoddiad cywir o gryfderau a gwendidau a oedd yn cwmpasu'r holl staff. Rhannwyd y cynllun wedyn gyda'r holl staff a llywodraethwyr am gymeradwyaeth derfynol. Mae arolygon o bryd i'w gilydd o farn rhieni a disgyblion pan ystyrir y buasai'r rhain o gymorth.
170. Mae diffygion yn y gyfundrefn gynllunio bresennol. Mae cynllunio gwelliant yn ddiffygiol o ran cylchred strwythuredig a chyfannol o weithgareddau gydol y flwyddyn, ac nid yw monitro cynlluniau-datblygu wedi'i ddatblygu'n llawn. Nid oes gan yr holl adrannau gynlluniau-gwelliant sy'n briodol fanwl nac wedi'u ffocysu'n briodol.
171. Mae'r ysgol, oddi mewn i gyfyngiadau ei chyllideb, yn cynorthwyo blaenoriaethau ar gyfer datblygiad gydag adnoddau priodol.
172. Cymysg yw cynnydd yr ysgol wrth fynd i'r afael â'r materion allweddol yn yr adroddiad blaenorol.
173. Mae cynnydd da wedi'i wneud wrth ddefnyddio data i fonitro cyflawniad, defnyddio data yn fwy effeithiol, er mwyn hysbysu rhieni a disgyblion, cynyddu adnoddau TGCh, a dileu'r materion iechyd a diogelwch a ganfuwyd yn yr adroddiad.
174. Mae'r rhan fwyaf, ond nid pob un o'r meysydd pwnc, wedi gwella safonau yng nghyfnod allweddol 3. Mae monitro gweithrediad polisiâu ysgol-gyfan, y cyfraniad a wnaed gan waith cartref a marcio yn dal yn anghyson ar draws yr ysgol.
175. Nid oes unrhyw gynnydd wedi'i wneud tuag at ddarparu gweithred feunyddiol o gydaddoli ar gyfer yr holl ddisgyblion, na gwella safonau mewn cerddoriaeth.

**Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon yw'r arweinwyr a'r rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?**

**Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion**

176. Mae'r radd a ddyfarnwyd gan y tîm arolygu yn cytuno â'r radd a ddyfarnwyd gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.

**Digonolrwydd, addasrwydd a'r defnydd a wneir o staffio, adnoddau dysgu ac adeiladau ac ystafelloedd**

177. Mae nodweddion da'r staff yn gorbwyso'r diffygion.

178. At ei gilydd, mae nifer y staff fwy neu lai yn ddigonol i'r ysgol weithredu'n effeithlon, ac mae gan y staffio'r nodweddion da canlynol:

- mae athrawon wedi'u cymhwyso'n briodol er mwyn cwrdd ag anghenion y cwricwlwm;
- mae cydbwysedd rhwng athrawon profiadol a'r rhai sy'n newydd i'r proffesiwn;
- mae'r bwrsar a'r staff-gweinyddol yn sicrhau fod y swyddfa, y dderbynfa a'r ardaloedd reprograffeg yn gweithredu'n effeithlon;
- mae cymorth da a chadarnhaol oddi wrth dechnegydd mewn celf, dylunio a thechnoleg a thechnoleg gwybodaeth;
- mae'r 13 cynorthwydd addysgu a dysgu yn darparu cymorth da ar gyfer nifer y disgyblion a'r myfyrwyr sydd â phroblemau dysgu, corfforol ac ymddygiadol; maent yn cydweithio'n dda gyda'r athrawon, a hefyd
- mae'r llyfrgellydd yn cynnal, gwasanaethu a goruchwyllo defnydd y llyfrgell yn effeithiol ac effeithlon.

179. Diffygion y staffio yw:

- nifer yr athrawon nad ydynt yn arbenigwyr a ddefnyddir ar gyfer addysgu Saesneg a TGCh;
- nifer yr athrawon rhan-amser a gyflogir;
- dim ond un athro penodol/athrawes benodol ar gyfer anghenion addysgol arbennig; a hefyd
- nid yw'r unig dechnegydd mewn gwyddoniaeth yn gallu darparu ar gyfer holl ofynion yr adran.

180. Mae ansawdd a maint yr adnoddau dysgu wedi gwella ond mae'r sefyllfa ariannol bresennol yn cyfyngu ar hyn. Mae hyn yn gwneud cynllunio hirdymor yn anodd.

181. Mae'r nodweddion da yn cynnwys:

- Amrediad digonol o werslyfrau ac offer ledled y meysydd pwnc;
- mae gan nifer o feysydd pwnc daflunyddion rhyngweithiol a ddefnyddir ar gyfer mwyhau addysgu;
- yr ardal dylunio a thechnoleg, lle defnyddir dylunio â chymorth cyfrifiadur a chynhyrchu â chymorth cyfrifiadur (CAD/CAM) yn dda iawn;

- y cyfleusterau da iawn ar gyfer addysg gorfforol yn y ganolfan hamdden sydd gerllaw;
  - ar adegau, defnyddir cyfleoedd allan-o'r-ysgol, megis ymweliadau ag amgueddfeydd, orielau, theatrau, a theithiau maes, er mwyn cyfoethogi'r cwricwlwm, a hefyd
  - mwyheir profiadau dysgu disgyblion gan siaradwyr sy'n ymweld.
182. Ar adegau, mae'r diffygion canlynol yn gallu cael effaith andwyol ar safonau:
- mae darpariaeth offer TGCh yn annigonol; mae llawer ohono yn heneiddio ac yn annibynadwy; dim ond tri chyfrifiadur sydd gan y llyfrgell, sy'n cyfyngu ar gyfleoedd am waith-cwrs a defnyddio'r Rhyngrwyd ar gyfer ymchwil ayb;
  - cyfleoedd prin i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig i wella eu medrau sylfaenol gan ddefnyddio TGCh, a hefyd
  - diffyg offer ar gyfer gwersi ymarferol mewn gwyddoniaeth.
183. Is na'r cyffredin yw stoc y llyfrgell o lyfrau ffuglen a ffeithiol. Fe'i defnyddir yn dda gan bynciau ar draws y cwricwlwm. Amser cinio, fe'i defnyddir fel clwb gwaith-cartref ac mae'n ysgogi dysgu annibynnol disgyblion. Yn ystod amser gwersi, pan nad oes dosbarthiadau yn y llyfrgell, gall myfyrwyr ddefnyddio'r tri chyfrifiadur ar gyfer astudio annibynnol, ymchwil a gwaith cwrs.
184. At ei gilydd, dim ond digon yw'r adeiladau a'r ystafelloedd ar gyfer nifer y disgyblion sydd ar y gofrestr ar hyn o bryd. Mae mwyafrif yr ystafelloedd pwnc wedi'u grwpio gyda'i gilydd, ac maent yn darparu'n dda ar gyfer mwyafrif y meintiau dosbarth. Mewn ystafelloedd dosbarth, mae arddangosfeydd o waith disgyblion a gwybodaeth bwnc yn amrywio; lle maent yn llachar a lliwgar, mae amgylchedd dysgu ysgogol. Mae ystafelloedd dylunio a thechnoleg sydd wedi'u hadnewyddu a set o doiledau disgyblion sydd wedi'u hadnewyddu. Mae cyfleusterau da iawn ar gyfer addysgu addysg gorfforol, a chedwir tiriogaeth ac adeiladau'r ysgol yn lân ac yn rhydd o ysbwriel ar y cyfan.
185. Ôl-16, mae'r adeiladau a'r ystafelloedd yn cwrdd â gofynion bugeiliol ac academiaidd y cwricwlwm. Mae ystafell gyffredin fawr a ddefnyddir hefyd fel ystafell-astudio yn ystod gwersi.
186. Mae diffygion yn yr adeiladau a'r ystafelloedd. Mae addurno a chynnal-a-chadw gwael mewn rhai rhannau o'r ysgol, ac nid oes hysbysfyrddau mewn rhai ardaloedd, ac felly nid ydynt yn darparu amgylchedd dysgu ysgogol. Addysgir nifer fechan o wersi y tu allan i ystafelloedd arbenigol sy'n effeithio ar safonau. Mae angen labordy gwyddoniaeth ychwanegol, ac mae un ystafell gerddoriaeth yn annigonol er mwyn darparu ar gyfer addysgu pob dosbarth yng nghyfnod allweddol 3. Mae'r ail set o doiledau disgyblion mewn cyflwr gwael.

### **Pa mor effeithiol y defnyddir adnoddau er mwyn cyflawni gwerth am arian**

187. At ei gilydd, mae'r defnydd a wneir ohonynt, rheolaeth a datblygiad staff yn effeithiol, ac mae'r nodweddion da fel a ganlyn:
- mae'r defnydd a wneir o ran fwyaf y staff yn gwneud defnydd da o'u hamser, eu harbenigedd a'u profiad;

- mae amser cynllunio, paratoi ac asesu digonol wedi'i ddyrannu ar gyfer staff-addysgu yn eu hamserlenni;
  - mae cydlynu hyfforddi a datblygiad proffesiynol staff yn effeithiol ac yn unol â Rheoli Perfformiad, cynllun gwelliant yr ysgol ac anghenion adrannau ac unigolion. Arfarnir a defnyddir cyrsiau a fynychir er lles yr ysgol;
  - mae'r cymorth a'r rhaglenni ar gyfer athrawon sydd newydd gymhwyso ac ar gyfer myfyrwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon yn fanwl a chynhwysfawr, a hefyd
  - mae athrawon sy'n newydd i'r ysgol yn derbyn cymorth da.
188. Mae'r pennaeth a'i thîm arweinyddiaeth wedi gweithredu eu strategaeth ar gyfer y cytundeb llwyth-gwaith. Maent wedi dod â strwythur y cyfrifoldebau addysgu a dysgu i ben. Mae'r strwythur hwn wedi'i gadarnhau gan bwyllgor cyllid y corff llywodraethol.
189. Mae rheolaeth ariannol yr ysgol yn dda. Mae'r pennaeth, y bwrsar a phwyllgor y corff llywodraethol ar gyfer cyllid yn rheoli'n effeithiol y gyllideb sydd ar gael.
190. Mae penderfyniadau ariannol wedi'u ffocysu'n briodol ar anghenion cwricwlaidd fel y canfuwyd yn y cynllun gwella-ysgol, a monitrir gwariant yn rheolaidd ac effeithiol. Mae'r ysgol yn weithredol wrth fynd ar ôl yr holl grantiau sydd ar gael, ac fe'u defnyddir yn dda. Mae'r bwrsar a benodwyd yn ddiweddar wedi cyflwyno amrediad o arferion modern, ac mae argymhellion adroddiad diwethaf yr archwilwyr wedi'u gweithredu.
191. At ei gilydd, mae'r ysgol yn defnyddio eu hadnoddau a'i chyllid yn hyfedrus ac mae'n cyflawni gwerth am arian.

**Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu**

**Cymraeg iaith cyntaf**

**Cyfnod Allweddol 3: Gradd 3:** Nodweddion da yn gorbwyso diffygion  
**Cyfnod Allweddol 4: Gradd 3:** Nodweddion da yn gorbwyso diffygion

**Nodweddion da**

**Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4**

192. Mae agwedd disgyblion at eu gwaith yn y ddau gyfnod allweddol yn dda. Maent yn gwrando'n dda ar eu hathrawon ac arnynt ei gilydd yn y dosbarth a gwaith grŵp, ac maent yn ymateb yn briodol.
193. Mae hyder mwyafrif y disgyblion i siarad a thrafod topigau cyfarwydd ar lefel dosbarth a grŵp fel ei gilydd yn datblygu ar gyflymdra boddhaol. Mae mwyafrif llethol y disgyblion yn siarad yn eglur wrth drafod topigau o fewn eu profiad, ac maent yn gallu ymateb yn eithaf da i gwestiynau oddi wrth eu hathrawon.
194. Mae disgyblion B7 yn cymryd rhan yn hyderus mewn sgetshis ac maent yn portreadu cymeriadau o'u gwaith darllen, ar lafar ac yn ysgrifenedig, i safon dda.
195. Mae rhan fwyaf y disgyblion, ar draws y ddau gyfnod allweddol, yn gallu mynegi barn ar lafar ar dopigau sylfaenol yn dda. Maent yn cydweithredu'n dda mewn tasgau pâr a grŵp, gan gefnogi eu barn eu hunain â thystiolaeth.
196. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 3, mae nifer fechan o ddisgyblion mwy-abl yn B9 yn gallu ymhelaethu ar eu rhesymau a chynhyrchu dadleuon estynedig, gan wrando'n dda ar eraill, a pharchu safbwyntiau aelodau eraill o'u cynulleidfa.
197. Wrth adrodd yn ôl i'r dosbarth, mae disgyblion ar draws yr ystod allu yn defnyddio patrymau ieithyddol a geirfa sylfaenol yn llwyddiannus. Mae'r disgyblion mwy-abl yn cynhyrchu adroddiad estynedig; maent yn crynhoi'n effeithiol a defnyddio iaith i safon dda ar gyfer dwyn perswâd ar eu cynulleidfa.
198. Mae gan y disgyblion mwy-abl afael dda o eirfa, cystrawennau a ffurfiau amser y ferf, ac ar y cyfan, maent yn siarad Cymraeg â graddfa dda o lithrigrwydd. Wrth gyflwyno gwybodaeth, maent yn gwneud hyn gan ddefnyddio iaith briodol a chyda lefel dda o gywirdeb.
199. Mae disgyblion mwy-abl yn B11 yn arddangos ymatebion deallus yn eu gwaith beirniadol, sy'n seiliedig ar ddealltwriaeth dda o'r llyfrau gosod a astudir. Mae eu gwaith yn cynnwys defnydd priodol o iaith wrth werthfawrogi llenyddiaeth.
200. Mae safonau darllen yn amrywio yn y ddau gyfnod allweddol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn uchel eu gwaith eu hunain a darnau sylfaenol eraill oddi mewn i'w profiad i safon eithaf da. Maent yn ynganu rhan fwyaf y geiriau allweddol yn gywir, ac maent yn defnyddio goslef a mynegiant priodol. Hefyd,

mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymateb yn eithaf da yn ysgrifenedig i amrywiaeth dda o ddefnyddiau darllen, rhai ffeithiol a chreadigol fel ei gilydd.

201. Mae nifer fechan o'r disgyblion mwy-abl yn darllen yn uchel i safon dda, ac maent yn defnyddio naws a chywair priodol gan ddod â'r ystyr yn fyw, wrth ddarllen mewn grwpiau.
202. Mae safonau ysgrifennu yn amrywio, oddi mewn i'r ddau gyfnod allweddol, ac adlewyrchir hyn yng nghynnwys, hyd, arddull a chywirdeb y gwaith.
203. Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws y ddau gyfnod allweddol yn gallu ysgrifennu mewn amrywiaeth o arddulliau; at ddibenion gwahanol ac ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol i lefel dderbyniol. Maent yn gallu mynegi barn a datblygu eu syniadau yn eithaf da.
204. Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd priodol.
205. Mae esiamplau o ysgrifennu ffeithiol a chreadigol da yn y Profion Asesu Safonol ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 ac yn y gwaith ffolio yn B11. Mae'r disgyblion hyn yn cymryd balchder yn eu gwaith gan gynhyrchu erthyglau o ansawdd dda, a chyda graddfa dda o gywirdeb o ran gramadeg sylfaenol ac atalnodi.

## Diffygion

206. Mae nifer sylweddol o ddisgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn ansicr o strwythurau gramadegol sylfaenol yr iaith. Mae'r camsyniadau cystrawennol sylfaenol hyn, sillafu a threigliadau yn rhwystro eu gallu i gyfathrebu'n effeithiol.
207. Mae gallu disgyblion o allu canolig ac is i gynllunio eu gwaith ac ysgrifennu'n estynedig mewn ffurfiau cynyddol amrywiaethol wedi'i ddatblygu i raddfa lai.
208. Cyfyng yw darllen personol disgyblion o allu-is. Maent yn cael anhawster wrth ddarllen testun yn uchel â chywirdeb, ac wrth gyfleu ystyr mewn modd eglur.

<b>Saesneg</b>
----------------

<b>Cyfnod Allweddol 3:</b>	<b>Gradd 3:</b>	Nodweddion da yn gorbwyso diffygion
<b>Cyfnod Allweddol 4:</b>	<b>Gradd 2:</b>	Nodweddion da a dim diffygion pwysig
<b>Ôl-16:</b>	<b>Gradd 2:</b>	Nodweddion da a dim diffygion pwysig

## Nodweddion da

### Cyfnod Allweddol 3

209. Mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n astud. Maent yn arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda trwy ymateb i gwestiynau mewn trafodaeth ddsbarth. Maent yn atgofio gwybodaeth, disgrifio, egluro a gosod syniadau gerbron. Mae disgyblion abl yn gosod cwestiynau a chyfiawnhau penderfyniadau.

210. Mae'r rhan fwyaf yn cydweithio'n dda mewn parau ac mewn grwpiau bychain. Maent yn gwneud hyn am ystod o ddibenion, gan gynnwys cynllunio gwaith, dadansoddi testunau ac ymateb i ysgrifennu ei gilydd.
211. Maent bron i gyd yn darllen ystod eang o lyfrau ffuglen a ffeithiol, barddoniaeth a drama. Mae llawer yn dehongli'r hyn a ddarllenir gan ddeall ei ddefnydd ac effeithiau'r dyfeisiadau a ddefnyddir gan awduron. Mae'r rhan fwyaf yn darllen yn uchel gyda chywirdeb a rhuglder. Mae llawer yn darllen â mynegiant. Maent i gyd yn sgimio a sganio am wybodaeth, ac maent yn arddangos sgiliau ymchwil da. Rhoddir cymorth da i'r llai-abl wrth ddatblygu sgiliau-darllen a gwneir cynnydd da.
212. Mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n eang mewn amrediad o ffurfiau ac at amrywiaeth o ddibenion. Mae'r rhan fwyaf yn gwella eu hysgrifennu trwy wybodaeth o'r meini prawf, gan ddefnyddio modelau a thrwy gynllunio a drafftio. Mae'r lleiaf-abl yn ymateb yn dda i ddarpariaeth fframiau ysgrifennu. Mae disgyblion galluog yn cyfleu naws ac awyrgylch, mynegi teimladau, gosod safbwynt gerbron a dangos empathi at y cymeriadau mewn testunau gosod.
213. Mae mwyafrif y disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd priodol.

#### **Cyfnod Allweddol 4**

214. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando â pharch, yn cynnal canolbwyntio, ac ymateb yn brydlon o gwestiynau athrawon. Mae disgyblion abl yn dangos ymwybyddiaeth o gynulleidfa, ac maent yn defnyddio Saesneg Safonol. Mae ganddynt fedrau cydweithio a thrafod da. Mae'r rhai hynny sydd mewn grwpiau un-genedl yn neilltuol o hyderus. Maent yn aml yn rhoi atebion manwl ac estynedig. Maent yn cyfiawnhau barn a gosod cwestiynau.
215. Maent i gyd yn darllen ystod eang o destunau o gymhlethdod cynyddol. Maent yn arddangos dealltwriaeth dda o ddyfeisiadau llenyddol ac anlenyddol, ac maent yn gwybod a defnyddio geirfa dechnegol.
216. Fel arfer, mae safonau ysgrifennu'n dda. Yn dilyn proses drafftio, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cynhyrchu copïau terfynol o waith cwrs sy'n dangos cynnydd da. Mae plygellau yn cynnwys ysgrifennu sydd wedi'i drefnu a'i strwythuro'n dda, sy'n estynedig ac sy'n cynnwys defnydd priodol o ddyfyniadau.

#### **ÔI-16**

217. Mae perthynas dda mewn gwersi yn annog disgyblion i gydweithio'n dda mewn trafodaethau pâr a grŵp. Maent yn cynnig barn, trafod a chyflwyno safbwyntiau â hyder cynyddol.
218. Mae myfyrwyr yn dadansoddi ac ymateb i ystod briodol o destunau heriol ar lafar ac mewn traethodau estynedig beirniadol. Maent yn arddangos dealltwriaeth eglur o gymeriadau, plotiau a themâu ynghyd â chefnidiroedd cymdeithasol, diwylliannol a hanesyddol y testunau gosod. Mae dadansoddiad o ddefnydd nas gwelwyd cyn hynny, yn aml yn fanwl a miniog. Mae defnydd da o eirfa dechnegol a dealltwriaeth dda o dechnegau a ddefnyddir gan ysgrifenwyr ar gyfer effaith.



219. Maent i gyd yn gwneud cynnydd da mewn ymateb i sylwadau diagnostig a ysgrifennwyd gan athrawon. Erbyn diwedd y cwrs, mae disgyblion yn cynhyrchu ysgrifennu beirniadol crefftus iawn, sy'n cynnwys dyfyniadau a thraws-gyfeiriadau priodol. Mae dadleuon fel arfer yn eglur, ac wedi'u strwythuro'n dda.
220. Mae'r myfyrwyr i gyd yn gwybod ac yn deall meini prawf yr asesu a gofynion arholiadau.

## Diffygion

### Cyfnod Allweddol 3

221. Mae gan nifer fechan o ddisgyblion ddiffyg o ran ffocws a chanolbwyntio. Maent weithiau yn gweiddi ymatebion allan a chymryd rhan mewn islif o sgwrsio.
222. Mae nifer fechan ond sylweddol o ddisgyblion ym mhob grŵp-oed yn gweithio ar dempo araf wrth ysgrifennu. Nid ydynt bob amser yn ymestyn eu gwaith, ac yn aml maent yn gadael gwaith heb ei orffen ac wedi'i gyflwyno'n wael. Nid yw rhai yn drafftio gwaith yn effeithiol ac felly mae camsyniadau'n dal ynddo.
223. Mae cyflawniad merched yn well na chyflawniad bechgyn.

### Cyfnod Allweddol 4

224. Nid yw nifer fechan o ddisgyblion yn gweithio'n ddigon caled mewn gwersi, ac nid ydynt bob amser yn gwneud defnydd cynhyrchiol o'u hamser.
225. Mae cyflawniad merched yn sylweddol well na chyflawniad bechgyn.

### ÔI-16

226. Mewn ychydig o achosion, mae diffyg hyder gan fyfyrwyr, ac felly mae drafftiau cychwynnol yn cynnwys ymadroddion gwan, ac maent yn ddiffygiol o ran dadansoddiad beirniadol.

<b>Gwyddoniaeth</b>
---------------------

- |                            |                 |   |
|----------------------------|-----------------|---|
| <b>Cyfnod Allweddol 3:</b> | <b>Gradd 2:</b> | Nodweddion da a dim diffygion pwysig                  |
| <b>Cyfnod Allweddol 4:</b> | <b>Gradd 4:</b> | Rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig |
| <b>ÔI-16:</b>              | <b>Gradd 3:</b> | Nodweddion da yn gorbwyso diffygion                   |

## Nodweddion da

### Cyfnod Allweddol 3

227. Mae gan lawer o ddisgyblion wybodaeth a dealltwriaeth sicr o ystod eang o dopigau, sy'n cwmpasu holl agweddau'r Cwricwlwm Cenedlaethol, ar lefelau sy'n briodol i'w cyfnod datblygu.

228. Mae llawer o ddisgyblion yn adalw cysyniadau allweddol yn dda gan wneud defnydd ohonynt mewn ystod o dasgau, problemau a'r defnydd o wyddoniaeth mewn sefyllfaoedd cyfarwydd ac anghyfarwydd.
229. Mae gan fwyaf y disgyblion dealltwriaeth dda o'r cyswllt rhwng egwyddorion gwyddonol a defnydd sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd a byw'n iach.
230. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio termau gwyddonol yn briodol mewn gweithgareddau datrys-problemau ac mewn ymarferion er mwyn mynd yn ôl dros waith a wnaed mewn gwersi.
231. Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd da parthed eu gallu.
232. Mae disgyblion yn datblygu medrau ymarferol da. Mae disgyblion yn gweithio mewn modd diogel, ac mae'r rhan fwyaf yn cydweithio'n dda mewn gweithgareddau ymarferol a rennir.

#### **Cyfnod Allweddol 4**

233. Mae gan leiafrif o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o'r egwyddorion mwy cymhleth a ddatblygir yn y cyfnod allweddol ym mhrosesau bywyd a phethau byw, defnyddiau a'u priodoleddau a nodweddion ffisegol.
234. Mae gan ddisgyblion mwy-abl, ynghyd â lleiafrif o ddisgyblion o allu cyfartalog atgof da o waith blaenorol, ac maent yn gallu cymhwyso'u gwybodaeth i ystod o dasgau a defnyddiau ar draws llawer o dopigau yn y Cwricwlwm Cenedlaethol.
235. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dda o'r cyfraniad y mae gwyddoniaeth yn ei wneud i gymdeithas a'i effaith ar ddiwydiant, datblygiad cynaliadwy a'r economi.
236. Mae disgyblion mwy-abl yn cwblhau ymchwiliadau i safon dda.
237. Pan fo safonau'n dda, mae disgyblion yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth wyddonol i ddylanwadu ar eu cynllun. Cofnodir mesuriadau go iawn yn systematig.
238. Maent yn gallu dadansoddi eu canlyniadau gan ddefnyddio graffiau neu ddulliau rhifiadol, asesu dilysrwydd eu canfyddiadau a dangos dulliau o wella eu gweithdrefnau.
239. Yn gyffredinol, mae disgyblion sy'n dilyn cwrs gwyddoniaeth gymwysedig yn gwneud cynnydd sy'n adlewyrchu nodweddion da sy'n gorbwyso diffygion.

#### **Ôl-16**

240. Mae lleiafrif bach o fyfyrwyr yn y grwpiau addysgu bioleg, cemeg a ffiseg B12 a B13 presennol yn gwneud cynnydd da yn y rhaglenni astudio priodol.
241. Mae gan y myfyrwyr hyn atgof a dealltwriaeth dda o gysyniadau ac egwyddorion allweddol.

242. Mae mwyafrif bach o fyfyrwyr yn gallu defnyddio eu dealltwriaeth ddamcaniaethol ar gyfer nifer o broblemau sy'n ymwneud â dadansoddi data a datrys-problemau mewn sefyllfaoedd cyfarwydd ac anghyfarwydd.
243. Mae mwyafrif y myfyrwyr yn datblygu medrau ymarferol da. Maent yn gallu defnyddio eu gwybodaeth ddamcaniaethol i ddadansoddi ac arfarnu eu harsylwadau.

## **Diffygion**

### **Cyfnod Allweddol 3**

244. Mae gan leiafrif o ddisgyblion o allu cyfartalog ac is atgof a dealltwriaeth lai sicr o waith cyfredol a blaenorol.
245. Maent yn cael anawsterau wrth ddefnyddio egwyddorion gwyddonol ar gyfer ystod o dasgau mewn sefyllfaoedd cyfarwydd ac anghyfarwydd fel ei gilydd, a chynnyg esboniadau o ymddygiad y maent yn arsylwi arno.
246. Mae lleiafrif o ddisgyblion, er eu bod yn gwneud cynnydd da mewn profion diwedd-modiwl, yn methu â chwblhau tasgau gwaith-cartref.

### **Cyfnod Allweddol 4**

247. Mae llawer o ddisgyblion yn tangyflawni mewn perthynas â'u perfformiad ym mhroffion cenedlaethol cyfnod allweddol 3. Mae hwn yn ddiffyg pwysig.
248. Mae gan safon ymchwiliadau ar gyfer mwyafrif y disgyblion sy'n astudio cwrs gwyddoniaeth dyfarniad-dwbl ddiffygion pwysig. Nid yw disgyblion yn mynd i'r afael â meysydd medrau cynllunio, dadansoddi ac arfarnu mewn dyfnder digonol i gyrraedd marciau sy'n gwella eu perfformiad yn gyffredinol.
249. Nid yw atgof mwyafrif y disgyblion o allu cyfartalog ac is yn sicr, ac felly maent yn cael anawsterau wrth wneud defnydd o nifer o egwyddorion gwyddonol ar gyfer ystod o dasgau a phroblemau gwyddonol.
250. Mae lleiafrif sylweddol o ddisgyblion yn methu â chwblhau tasgau ar gyfer gwaith cartref.

### **ÔI-16**

251. Yn arholiadau AS ac A2 yn 2005, tangyflawnodd mwyafrif y myfyrwyr.
252. Yn y grwpiau addysgu presennol, mae gan leiafrif o fyfyrwyr wybodaeth a dealltwriaeth lai sicr o rai o'r topigau a astudiwyd.
253. Maent yn cael anawsterau wrth ddefnyddio rhai o'r egwyddorion mwy cymhleth ar gyfer tasgau a defnyddiau ymarferol.

## Dylunio a thechnoleg

<b>Cyfnod Allweddol 3:</b>	<b>Gradd 1:</b>	Da gyda nodweddion eithriadol
<b>Cyfnod Allweddol 4:</b>	<b>Gradd 1:</b>	Da gyda nodweddion eithriadol
<b>Ôl-16:</b>	<b>Gradd 2:</b>	Nodweddion da a dim diffygion pwysig

### Nodweddion da ac eithriadol

#### Cyfnod Allweddol 3

254. Mae disgyblion yn deall a defnyddio proses ddylunio yn eu gwaith prosiect. Maent yn ymchwilio'n dda, yn cynhyrchu manylebau dylunio priodol, ac maent yn gallu datblygu eu syniadau yn atebion terfynol ymarferol.
255. Mae disgyblion yn deall a gwneud defnydd o'r cyswllt rhwng manylebau dylunio ac arfarnu.
256. Mae disgyblion yn arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r defnyddiau a'r prosesau a ddefnyddir mewn gwaith prosiect.
257. Mae dealltwriaeth, adeiladu a defnydd disgyblion o adeiladu cylchedau yn eithriadol.
258. Mae medrau rhaglennu yn eithriadol.
259. Mae medrau-gwneud yn dda mewn ystod briodol o ddefnyddiau.
260. Gwneir defnydd eithriadol o ddylunio â chymorth cyfrifiadur a CAD/CAM mewn gwaith prosiect.
261. Mae disgyblion yn arddangos dealltwriaeth gadarn o strwythurau sylfaenol a'r defnydd o driongiant.
262. Mae disgyblion o allu is a disgyblion anghenion arbennig yn gwneud cynnydd da, ac ymestynnir y rhai mwy-abl.

#### Cyfnod Allweddol 4

263. Mae safonau mewn dylunio cynnyrch a thechnoleg bwyd TGAU yn eithriadol.
264. Mae gwaith prosiect disgyblion yn arddangos dealltwriaeth a defnydd trylwyr o broses ddylunio.
265. Mae gwaith ymchwil yn berthnasol ac wedi'i gyfarwyddo'n dda.
266. Mae sgiliau cyflwyno rhan fwyaf y myfyrwyr yn dda. Mae disgyblion yn defnyddio pecynnau dylunio TGCh yn effeithiol er mwyn mwyhau ymchwil, dyluniad a chyflwyniad eu gwaith.
267. Gwneir defnydd eithriadol o CAD/CAM mewn prosiect gwaith-cwrs.

268. Mae medrau gwneud-a-modelu yn aml yn eithriadol. Mae disgyblion yn gwneud defnydd o ystod eang o dechnegau wrth gynhyrchu cynnyrch cywir a orffennwyd yn dda.

### Ôl-16

269. Mae safonau mewn dylunio cynnyrch Lefel A yn dda.

270. Mae gwaith dylunio myfyrwyr wedi'i ddatblygu'n dda. Gwneir defnydd effeithiol o broses ddylunio ar gyfer llywio datblygiad cynnyrch.

271. Mae myfyrwyr yn ymchwilio, dadansoddi ac arfarnu cynnyrch masnachol a'u gwaith eu hunain yn dda.

272. Mae gwaith prosiect yn aml yn arloesol.

273. Gwneir defnydd eithriadol o TGCh at amrywiaeth o ddibenion sy'n cynnwys cynllunio, CAD/CAM, ymchwil a chyflwyno.

274. Mae gwaith prosiect myfyrwyr wedi'i adeiladu a'i orffen yn dda.

275. Mae dealltwriaeth ddamcaniaethol yn dda.

### Diffygion

#### Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4

276. Nid oes unrhyw ddiffygion sylweddol.

### Ôl-16

277. Nid yw medrau darlunio datblygiadol cyflym, yn enwedig mewn llyfrau bras-ddarluniau wedi'u datblygu mor dda ag agweddau eraill o ddylunio.

278. Nid yw manylebau wedi'u ffocysu'n ddigonol bob amser ac nid yw'r meini prawf cyntafol wastad wedi'u canfod.

### Cerddoriaeth

<b>Cyfnod Allweddol 3:</b>	<b>Gradd 4:</b>	Rhai nodweddion da ond diffygion mewn meysydd pwysig
<b>Cyfnod Allweddol 4:</b>	<b>Gradd 4:</b>	Rhai nodweddion da ond diffygion mewn meysydd pwysig
<b>Ôl-16:</b>	<b>Gradd 3:</b>	Nodweddion da yn gorbwyso diffygion

### Nodweddion da

#### Cyfnod Allweddol 3

279. Mae disgyblion yn gallu canu a chwarae offerynnau allweddell gyda pheth cywirdeb. Yn B7, mae rhan fwyaf y disgyblion yn canu â brwdfrydedd, a thalu sylw dyladwy i fanylion cerddorol yn eu perfformiadau. Maent yn gwneud cynnydd trwy ymarfer rheolaidd.

280. Ar draws y cyfnod allweddol, mae ychydig o ddisgyblion yn gallu chwarae'n fyrfyr a chyfansoddi darnau byr mewn ymateb i amrywiaeth o symbyliadau. Mae peth tystiolaeth o ddatblygiad sylfaenol o syniadau cerddorol oddi mewn i strwythur a roddir.
281. Mae disgyblion yn gallu gwerthuso cerddoriaeth o ystod o arddulliau a diwylliannau â graddau llwyddiant amrywiol. Maent yn gallu adnabod rhai o'r elfennau cerddorol a'u defnyddio ar gyfer darnau o gerddoriaeth fyw, a cherddoriaeth a recordiwyd.

#### **Cyfnod Allweddol 4**

282. Mae ychydig o ddisgyblion yn cyflawni safonau perfformio da. Maent yn arddangos llithrigrwydd a chywirdeb mewn goslef a rhythm ac argyhoeddiad o ran dehongliad.
283. Maent yn gallu creu cyfansoddiadau cyflawn i symbyliad a roddir gyda pheth llwyddiant. Datblygir syniadau cerddorol cychwynnol, ac maent yn adlewyrchu peth gwybodaeth o'r cyfrwng a ddewiswyd.
284. Mae disgyblion yn gallu gwerthuso cerddoriaeth o arddulliau a diwylliannau amrywiol gan ffocysu ar elfennau cerddorol penodol.

#### **ÔI-16**

285. Mae myfyrwyr yn B12 yn gallu ymateb i ystod eang o gerddoriaeth, ac maent yn datblygu eu galluoedd i ddadansoddi a disgrifio'n fanwl. Mae un neu ddau fyfyrwr yn gallu cefnogi dyfarniadau trwy gyfeirio at esiamplau priodol. Mae eu hymatebion i gyfansoddiadau jazz offerynnol a nodwyd yn arddangos eu dealltwriaeth o gonfensiynau perthnasol iaith ac arddull cerddorol.
286. Ar hyn o bryd, mae cyfansoddiadau gwreiddiol neu drefniadau yn anghyflawn ar hyn o bryd, ac yn y camau cynllunio. Mae cyfansoddiadau blaenorol ar y lefel hon yn arddangos defnydd da o gydbwysedd, ffurf a strwythur, a pheth datblygiad o syniadau cerddorol. Mae'r dewis o leisiau ac offerynnau yn dangos amrywiaeth ansawdd.
287. Mae perfformiadau lleisiol ac offerynnol fel arfer yn sicr o ran rhythm, traw a goslef. Nid yw nifer o gamsyniadau dibwys yn effeithio ar y perfformiad yn gyffredinol a chynhelir llithrigrwydd. Mewn gwaith ensemble, arddangosir ymdeimlad o gydberthynas gydag aelodau eraill yr ensemble.

#### **Diffygion**

#### **Cyfnod Allweddol 3**

288. Nid yw mwyafrif disgyblion B8 a B9 wedi datblygu eu sgiliau perfformio unigol. Mae cynnydd yn gyfyng, ac mae perfformiadau lleisiol ac offerynnol yn ddiffygiol o ran llithrigrwydd a chywirdeb technegol. Ar draws y cyfnod allweddol, nid yw medrau ensemble wedi'u datblygu'n llawn.

289. Mae gan fwyafrif y disgyblion wybodaeth elfennol o gyfansoddi. Mae syniadau cerddorol yn rhai sylfaenol, ac nid ydynt wedi'u datblygu'n effeithiol, ac ni adolygir gwaith na'i fireinio er mwyn cynhyrchu cyfansoddiadau gorffenedig.
290. Nid yw llawer o ddisgyblion yn B8 a B9 yn gwranddo'n effeithiol wrth werthuso tasgau. Mae eu hymatebion yn rhai byr a difater ac nid ydynt yn ffocysu ar yr elfennau cerddorol.

#### **Cyfnod Allweddol 4**

291. Mae gan fwyafrif y disgyblion fedrau cerddorol sydd heb eu datblygu'n ddigonol.
292. Mae perfformiadau unigol yn ddiffygiol o ran amrywiaeth a llithrigrwydd, ac nid ydynt yn talu sylw digonol i fanylion cerddorol.
293. Mae cyfansoddiadau yn ddiffygiol o ran strwythur a lliw, a dewis cyfyng o syniadau cerddorol sydd.
294. Wrth werthuso cerddoriaeth, mae disgyblion yn cael anhawster wrth ddefnyddio gwybodaeth flaenorol, ac mae gwerthusiadau yn ddiffygiol o ran dyfnder a manylder. Nid yw llawer o ddisgyblion yn deall sut i wella eu gwaith.

#### **Ôl-16**

295. Mae atebion mewn gweithgareddau gwerthuso naill yn fyr neu'n ddisgrifiadol, ac anfynych y gwnânt ddyfarniadau a'u cefnogi â thystiolaeth berthnasol. Nid yw un neu ddau o'r myfyrwyr yn ymestyn eu gwybodaeth gymaint ag y medrent er mwyn cyrraedd y graddau uchaf.

<b>Addysg gorfforol</b>
-------------------------

<b>Cyfnod Allweddol 3:</b>	<b>Gradd 3:</b>	Nodweddion da yn gorbwyso diffygion
<b>Cyfnod Allweddol 4:</b>	<b>Gradd 3:</b>	Nodweddion da yn gorbwyso diffygion
<b>Ôl-16:</b>	<b>Gradd 3:</b>	Nodweddion da yn gorbwyso diffygion

#### **Nodweddion da**

#### **Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4**

296. Mae disgyblion yn cydweithio'n dda ar dasgau cydweithredol er mwyn cyflawni deilliannau penodol. Maent yn gallu trefnu eu hunain yn dda ac maent yn hunan-reoli chwaraeon.

#### **Cyfnod Allweddol 3**

297. Mae disgyblion yn gweithio'n frwdfrydig. Maent yn astud, ac yn ymateb yn briodol i gwestiynau.
298. Mae bechgyn yn B7 a B8 yn arddangos ystod o fedrau sylfaenol mewn gymnasteg. Mae'r mwyaf-abl yn deall pwysigrwydd ymestyn er mwyn gwella eglurder siâp. Maent yn cyfuno gwaith cyfarpar a gwaith llawr yn dda er mwyn cynhyrchu dilyniannau. Maent yn gweithio'n ddiwyd a diogel er mwyn cyflawni tasgau.

299. Mewn pêl-rwyd, pêl-droed a phêl-fasged, mae medrau sylfaenol danfon, derbyn driblo a gwaith-traed yn gadarn. Mae'r rhai mwyaf-abl yn pasio a derbyn yn gywir, ac maent yn arddangos dealltwriaeth o sut i ddefnyddio gofod yn effeithiol. Maent yn defnyddio medrau sylfaenol ymosod ac amddiffyn mewn sefyllfaoedd gêm. Maent yn ymateb yn dda i adborth.
300. Mewn nofio, mae disgyblion, yn enwedig y rhai llai-abl, yn arddangos hyder dŵr da, ac maent yn gallu arddangos o leiaf ddwy strôc.
301. Mae disgyblion yn deall pwysigrwydd cynhesu, ac maent yn deall effeithiau sylfaenol ymarfer ar y corff.
302. Mae rhan fwyaf y disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd priodol.

#### **Cyfnod Allweddol 4**

303. Yn nosbarthiadau TGAU B10, mae disgyblion yn cyfrannu'n dda i drafodaeth. Mae gwaith yn ddestlus ac yn gyffredinol, cedwir ffeiliau mewn trefn dda.
304. Mewn gweithgareddau ymarferol, mae disgyblion TGAU B11 yn arddangos ystod dda o fedrau. Mewn pêl-droed, mae rhan fwyaf y disgyblion yn arddangos rheolaeth dda wrth deithio, pasio a derbyn. Mae'r mwyaf-abl yn arddangos medrau gwneud-penderfyniadau da, ac maent yn defnyddio'r rhain yn dda yn dactegol i reoli gêm. Mewn nofio, mae grŵp dethol o ddisgyblion yn arddangos gallu technegol da dros amrediad o wahanol strociau. Maent yn gallu, gan amlaf, blymio'n effeithiol. Maent yn deall beth i'w wneud er mwyn gwella eu perfformiad. Maent yn cysylltu rhai agweddau damcaniaethol o'r cwrs â sefyllfa ymarferol.
305. Mewn addysg gorfforol graidd, mae disgyblion B11 yn gweithio'n frwdfrydig mewn amrediad o weithgareddau.

#### **ÔI-16**

306. Mae rhan fwyaf y myfyrwyr yn arddangos gwybodaeth dda mewn 'Caffael Sgiliau'. Maent yn cymryd rhan yn fodlon mewn trafodaeth, ac maent yn rhannu barn. Mae'r mwyaf-abl yn atgofio gwybodaeth o ddysgu blaenorol, ac maent yn ei ddefnyddio yn effeithiol.
307. Mewn gwaith ymarferol, yn enwedig mewn badminton, mae disgyblion yn arddangos lefel dda o fedrau. Maent yn gallu perfformio nifer o ergydion a defnyddio tactegau a strategaethau sylfaenol er mwyn trechu gwrthwynebwy. Mae rhai disgyblion yn gallu defnyddio termau anatomegol sylfaenol i ddisgrifio a gwerthuso symudiadau penodol.

#### **Diffygion**

##### **Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4**

308. Nid yw gallu disgyblion i ynganu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth wedi'i ddatblygu'n llawn. Nid yw'r rhan fwyaf yn gwerthuso eu perfformiad yn ddigon



effeithiol i'w wella. Mae atebion i gwestiynau yn fyr ac ond yn arddangos dealltwriaeth sylfaenol yn unig o'u gwaith.

309. Mewn chwaraeon, mae disgyblion o allu cyfartalog a disgyblion llai-abl yn ei chael hi'n anodd cynnal rheolaeth o'r bêl, yn enwedig pan y'u rhoddir dan bwysedd. Maent yn ei chael hi'n anodd defnyddio medrau a thactegau mewn sefyllfa gêm gydag unrhyw gysondeb.
310. Dim ond lleiafrif bach sy'n gallu trosglwyddo gwybodaeth ar draws gweithgareddau.

### **Cyfnod Allweddol 3**

311. Mae disgyblion o allu cyfartalog a disgyblion llai-abl yn ei chael hi'n anodd cynnal ymestyn a thensiwn corff ac unrhyw eglurder siâp go iawn mewn gymnasteg.
312. Nid yw disgyblion (yn enwedig y rhai mwyaf-abl) bob amser yn herio eu hunain i ymestyn lefel eu perfformiad. Nid ydynt yn gallu gwerthuso eu perfformiad eu hunain, na pherfformiad eraill, yn effeithiol.

### **Cyfnod Allweddol 4**

313. Nid yw lleiafrif o fechgyn yn B10 yn dangos ystyriaeth o eraill wrth weithio'n annibynnol o'u hathro, ac mae hyn yn effeithio ar gyfleoedd dysgu a pherfformio eraill.
314. Mae canolbwyntio gwael o blith nifer o ddisgyblion, yn enwedig y rhai nad ydynt yn cymryd rhan, yn golygu eu bod yn gweithio yn is na'u potensial, ac felly nid ydynt yn cyflawni'n llawn.

### **ÔI-16**

315. Nid yw myfyrwyr yn gallu rhoi atebion estynedig nac archwilio topigau mewn unrhyw ddyfnder go iawn. Nid ydynt chwaith yn defnyddio unrhyw esiamplau manwl o gyd-destun ymarferol i'w cynorthwyo yn eu hesboniadau. Nid ydynt yn dadansoddi perfformiad gydag unrhyw hyder go iawn.

## Ymateb yr ysgol i'r arolygiad

Mae'r ysgol yn croesawu'r adroddiad a wnaed o ganlyniad i'r arolygiad a wnaed ym mis Mawrth 2006. Yr ydym yn neilltuol o falch fod canfyddiadau'r arolygiad yn adlewyrchu Adroddiad Hunan-Arfarnu'r ysgol a gynhyrchwyd gan y tîm arweinyddiaeth cyn yr arolygiad. Yr ydym wrth ein bodd fod yr adroddiad wedi'i ddisgrifio'n un gonest a chywir a bod rhan fwyaf y materion ar gyfer gwelliant a ganfuwyd yn adroddiad Estyn wedi'u hamlygu eisoes yn yr Adroddiad Hunan-Arfarnu ac yn y Cynllun Gwella-Ysgol, a bod cydnabyddiaeth fod camau wedi'u cymryd eisoes i fynd i'r afael â llawer o'r materion hyn.

Yr ydym wrth ein bodd fod nifer o ardal cryfder wedi'u nodi, gan gynnwys:

- Y nodweddion eithriadol a nodwyd mewn nifer o wersi.
- Y gwelliant cyson yn y canlyniadau yng nghyfnod allweddol 3.
- Y gwaith o ansawdd uchel a gyflawnwyd mewn Addysg Gefnogol sy'n sicrhau fod disgyblion ag anghenion arbennig yn gwneud cynnydd da.
- Y gwelliant nodedig ers yr arolwg diwethaf o ran gwersi yn cyflawni Gradd 1.
- Datblygiad cadarnhaol medrau dwyieithog disgyblion.
- Agwedd gadarnhaol rhan fwyaf y disgyblion tuag at yr ysgol, eu gwaith ysgol, a thuag at eraill.
- Y medrau y mae disgyblion yn eu dangos mewn datrys-problemau, creadigrwydd a gweithio gydag eraill.
- Ansawdd da'r gofal, y cymorth a'r cyfarwyddyd a roddir i ddysgwyr.
- Rôl weithredol y llywodraethwyr wrth gynllunio a monitro datblygiad yr ysgol.
- Effaith gadarnhaol y Tîm Arweinyddiaeth estynedig ar symud yr ysgol ymlaen.
- Y rheolaeth ariannol da er gwaethaf cyfyngiadau cyllidebol.
- Y cynnydd a wnaed wrth ddadansoddi a defnyddio data er mwyn hyrwyddo cynnydd y disgyblion mewn dysgu.

Mae'r ysgol hefyd yn cydnabod y gwelliannau sy'n rhaid eu gwneud mewn rhai meysydd a bydd yn gweithio'n galed i fynd i'r afael â'r rhain trwy'r Cynllun Gweithredu ôl-arolygiad a Chynllun Gwella-Ysgol sydd wedi'i fwyhau. Mae'r pum argymhelliad a wneir yn yr adroddiad yn gwneud mynegbyst rhagorol ar gyfer y ffordd ymlaen. Bydd tynhau gweithdrefnau'r ysgol er mwyn sicrhau cysondeb yn holl feysydd bywyd yr ysgol yn brif amcan, fel ag y bydd sicrhau bod y defnydd o TGCh yn chwarae rhan fwy sylweddol mewn gwersi ac astudio'n gyffredinol. Yr ydym yn hyderus y byddwn yn gallu cyfarwyddo a chynorthwyo arweinwyr-pwnc, a'r rhai hynny sydd â meysydd cyfrifoldeb eraill, yn eu meistrolaeth o'u rôl. Bydd codi safonau disgyblion mewn cerddoriaeth yn brif flaenoriaeth i ni, fel ag y bydd rhoi ymwneud i fyfyrwyr chweched-dosbarth yn agweddau ehangach bywyd ysgol.

Mae'r ysgol yn gwerthfawrogi'r proffesiynoldeb a'r medrusrwydd a ddefnyddiwyd wrth ymgymryd â'r arolygiad. Gwelsom fod y gwaith yr ymgymeryd ag ef gan yr enwebai (y dirprwy-bennaeth) yn eithriadol o werthfawr. Mae'r adroddiad yn rhoi awdit addysgiadol allanol i ni, sy'n cyfateb â'n harfarniad ni ein hunain, gan roi sylfaen gadarn i ni ar gyfer symud ymlaen o sefyllfa drawsnewid i un o gyflawniad hir-barhaus.

## Atodiad 1

### Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

Enw'r ysgol	Ysgol Uwchradd Dinbych
Math o ysgol	Cymunedol
Ystod oedran y disgyblion	11 i 18
Cyfeiriad yr ysgol	Heol Rhuthun, Dinbych, Sir Ddinbych.
Côd post	LL16 3EX
Rhif ffôn	01745 812485

Pennaeth	Alison Duncan
Dyddiad penodi	Medi 2004
Cadeirydd y llywodraethwyr / Awdurdod priodol	R. Clwyd Parry
Arolygydd cofnodol	Mr T. O'Marah
Dyddiadau'r arolygiad	020/03/06 i 23/03/06

## Atodiad 2

### Data a dangosyddion ysgol

Grŵp blwyddyn	<b>B7</b>	<b>B8</b>	<b>B9</b>	<b>B 10</b>	<b>B 11</b>	<b>B12</b>	<b>B 13</b>	Cyfanswm
Nifer y disgyblion	148	162	163	184	161	78	50	946

Cyfanswm nifer yr athrawon			
	Amser llawn	Rhan-amser	Cyferth ag amser llawn (call)
Nifer yr athrawon	47	9	51.75

Gwybodaeth staffio	
Cymhareb disgybl: athro (call) (ac eithrio dosbarthiadau arbennig)	18.2:1
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau arbennig	-
Cyfartaledd maint grŵp addysgu	24.7
Cymhareb cyswllt cyffredinol (canran)	73.9%

Canran presenoldeb am y tri thymor cyflawn cyn yr arolygiad								
	<b>B7</b>	<b>B8</b>	<b>B9</b>	<b>B10</b>	<b>B11</b>	<b>B12</b>	<b>B13</b>	<b>Ysgol Gyfan</b>
Tymor 1	93%	92%	90%	88%	87%	91%	95%	90.5%
Tymor 2	91%	90%	88%	90%	89%	87%	96%	89.9%
Tymor 3	92%	90%	90%	88%	86%	88%	92.5	88.9%

Canran y disgyblion gyda'r hawl i brydau ysgol am ddim	13.8%
Nifer y disgyblion wedi'u gwahardd yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad	77

## Atodiad 3

### Canlyniadau Asesu'r Cwricwlwm Cenedlaethol Diwedd Cyfnod Allweddol 3:

Canlyniadau Asesiadau CA3 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2005															
Cyfanswm nifer y disgyblion yn B9: 179															
Canran y disgyblion ar bob lefel															
			D	A	F	W	1	2	3	4	5	6	7	8	EP
Saesneg	Asesiad Athro	Ysgol	0	0	1.1	0	0	1.1	5.6	26.3	31.3	25.1	19.5	0	0
		Cened-laethol	0.4	0.8	0.5	0.2	0.4	1.7	8.1	21.3	33.6	23.5	9.4	0.2	0
	Prawf	Ysgol	2.2	2.2	0.6	-	-	-	10.1	20.1	35.2	20.1	9.5	0	0
		Cened-laethol	0.5	3.5	2.7	dd/g	dd/g	dd/g	7.5	20.4	32.6	22.7	10.1	dd/g	dd/g
Cymraeg	Asesiad Athro	Ysgol	0	0.6	1.1	0	0	1.1	7.3	17.3	38.5	30.7	3.4	0	0
		Cened-laethol	0.3	0.6	0.5	0.2	0.2	0.9	6.8	18.9	25.7	31.6	13.7	0.3	0
	Prawf	Ysgol	1.1	4.5	2.2	-	-	-	3.4	19.0	25.7	39.1	5.0	0	0
		Cened-laethol	0.3	5.1	1.4	dd/g	dd/g	dd/g	5.1	17.2	19.9	36.0	15.0	dd/g	dd/g
Mathemateg	Asesiad Athro	Ysgol	0	0	1.1	0	0	0	8.9	14.0	36.3	31.8	7.8	0	0
		Cened-laethol	0.3	0.7	0.6	0.2	0.1	0.4	6.0	20.1	32.8	27.1	11.6	0.1	0
	Prawf	Ysgol	0	3.9	0	-	-	-	6.1	13.4	36.9	31.3	8.4	0	0
		Cened-laethol	0.3	0.4	0.8	dd/g	dd/g	dd/g	4.7	16.6	32.5	28.2	13.0	dd/g	dd/g
Gwyddon-iaeth	Asesiad Athro	Ysgol	0	0	1.1	0	0	1.1	5.6	26.3	31.3	25.1	19.5	0	0
		Cened-laethol	0.4	0.8	0.5	0.2	0.4	1.7	8.1	21.3	33.6	23.5	9.4	0.2	0
	Prawf	Ysgol	2.2	2.2	0.6	-	-	-	10.1	20.1	35.2	20.1	9.5	0	0
		Cened-laethol	0.5	3.5	2.7	dd/g	dd/g	dd/g	7.5	20.4	32.6	22.7	10.1	dd/g	dd/g

- D Disgyblion a eithrir dan drefniadau statudol o ran o'r Cwricwlwm Cenedlaethol neu'r cyfan ohono
- A Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel oherwydd absenoldeb
- F Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel am resymau ar wahân i absenoldeb
- W Disgyblion sy'n gweithio tuag at lefel 1
- EP Perfformiad Eithriadol, lle mae disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 3 yn perfformio uwchlaw lefel 8

<b>Canran y disgyblion sy'n cyrraedd o leiaf lefel 5 mewn mathemateg, gwyddoniaeth a naill ai Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf)</b>			
<b>yn ôl Asesiad Athro</b>		<b>yn ôl Prawf</b>	
Yn yr ysgol	53%	Yn yr ysgol	51.4%
Yng Nghymru	58%	Yng Nghymru	57%

### Canlyniadau Arholiadau Cyhoeddus:

<b>Ar gyfer disgyblion 15 oed, canlyniadau mewn TGAU, Cymhwyster Lefel Mynediad, CGCC a CGC</b>	
Nifer y disgyblion 15 oed ar gofrestr yr ysgol ym mis Ionawr 2005	151
Cyfartaledd sgôr pwyntiau TGAU neu CGCC fesul disgybl	36

<b>Canran y disgyblion 15 oed yn 2005:</b>	Ysgol	AU	Cymru
safodd 5 arholiad TGAU neu fwy neu gymhwyster cyfwerth	89%	85%	87%
enillodd o leiaf 5 gradd TGAU A* i C, y cymwysterau galwedigaethol cyfwerth neu gyfuniad o'r ddau	42%	49%	52%
enillodd o leiaf 5 gradd TGAU A* i G, y cymwysterau galwedigaethol cyfwerth neu gyfuniad o'r ddau	88%	83%	87%
enillodd graddau A*-C TGAU mewn mathemateg, gwyddoniaeth, Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf (y dangosydd pwnc craidd)	28%	33%	38%
safodd o leiaf un cymhwyster lefel Mynediad, cwrs byr TGAU neu TGAU	94%	96%	97%
enillodd un TGAU gradd TGAU A*-C neu fwy neu'r cymhwyster galwedigaethol cyfwerth	74%	72%	76%
enillodd un TGAU gradd A*-G neu fwy neu'r cymhwyster galwedigaethol cyfwerth	93%	90%	93%
heb ennill unrhyw radd TGAU neu'r cymhwyster galwedigaethol cyfwerth	7%	10%	7%
enillodd un cymhwyster lefel Mynediad neu fwy yn unig	0%	4%	3%
enillodd Rhan 1 CGCC, CGCC ar lefel Sylfaenol neu CGC lefel 1	-	-	-
enillodd Rhan 1 CGCC, CGCC ar lefel Canolradd neu CGC lefel 2	-	-	-

<b>Ar gyfer disgyblion 16, 17 a 18 oed, canlyniadau mewn Safon Uwch/UG, CGCC a CGC</b>	
Nifer y disgyblion 16, 17 a 18 oed ym mis Ionawr 2005	166
Nifer y disgyblion a safodd 2 arholiad safon uwch TAG neu fwy neu gymwysterau cyfwerth yn 2005	40
Nifer y disgyblion a safodd lai na 2 arholiad safon uwch TAG neu gymwysterau cyfwerth yn 2005	7

	Ysgol	AU	Cymru
Canran y disgyblion a safodd a gyflawnodd 2 neu fwy o raddau A-C	50%	64%	68%
Canran y disgyblion a safodd a gyflawnodd 2 neu fwy o raddau A-E	90%	94%	94%
Cyfartaledd sgôr pwyntiau fesul ymgeisydd yn sefyll 2 neu fwy o bynciau	14	19	20
Nifer y disgyblion a gyflawnodd CGCC Canolradd neu CGC ar lefel 2	-	-	-
Nifer y disgyblion a gyflawnodd CGCC Uwch neu CGC ar lefel 3	-	-	-

AU Awdurdod Unedol

## Atodiad 4

### Sail dystiolaeth yr arolygiad

Cyn yr arolygiad, cynhaliwyd trafodaethau llawn rhwng yr arolygydd cofrestredig a'r pennaeth yn seiliedig ar adroddiad hunan-arfarnu'r ysgol a'r adroddiad ar yr arolygiad blaenorol ym mis Ionawr 2000. Yn ogystal, cynhaliwyd cyfarfodydd gyda staff yr ysgol, gyda rhieni a chyda'r llywodraethwyr. Dychwelwyd 63 holiadur gan rieni, ac fe'u dadansoddwyd gan y tîm arolygu. Casglwyd dogfennau ysgol-gyfan a dogfennau-pwnc priodol, ac fe'u hadolygwyd gan arolygwyr. Defnyddiwyd yr holl wybodaeth hyn i ddylanwadu ar drefniant yr arolygiad a'r defnydd a wnaed o arolygwyr.

Yn ystod yr arolygiad, arolygwyd holl bynciau'r cwricwlwm yn fanwl ac arsylwyd ar gyfanswm o 139 o wersi. Gwelwyd pob un o athrawon yr ysgol yn addysgu o leiaf un waith. Cynhaliwyd cyfweiliadau ffurfiol ac anffurfiol gyda disgyblion, ac arsylwyd ar fywyd beunyddiol llawn yr ysgol. Adolygodd y tîm arolygu waith disgyblion mewn gwrslyfrau a phlygellau ac edrychwyd ar ddyddiaduron gwaith disgyblion a'r adroddiad ysgol a ddanfonwyd at eu rhieni.

Yn ystod yr wythnos, gwelodd y tîm arolygu 20 o gyfnodau cofrestru dosbarth a thri gwasanaeth, ac ymwelwyd ag ystod eang o glybiau a gweithgareddau. Cynhaliwyd cyfweiliadau â phenaethiaid-adrannau priodol, a chyda'r athrawon a'r rheolwyr hynny sy'n dal swyddi â chyfrifoldebau ysgol-gyfan.

Dadansoddwyd yn fanwl perfformiad yr ysgol mewn arholiadau cyhoeddus a phroffion yn fanwl er mwyn gallu canfod ac egluro tueddiadau dros amser, a chymariaethau â data lleol a chenedlaethol.



## Atodiad 5

### Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu

Aelod tîm	Dyddiau	Cyfrifoldebau
Terence A O'Marah Arolygydd Cofrestredig	4	<b>Cwestiynau Allweddol 1, 5, 6</b>
Justine Barlow Arolygydd Lleyg	2	Cyfraniadau i Gwestiynau Allweddol 1, 3, 4, 5, 7
S Glyn Davies	4	<b>Cwestiwn Allweddol 3</b> ; <i>Gwyddoniaeth</i> ; Cydlynnydd chweched dosbarth;
Alan V Edwards	4	<b>Cwestiwn Allweddol 7</b> ; Rhifedd; Arsylwi Cyffredinol
Rachel Carr	3	<b>Cwestiwn Allweddol 4</b> ; Anghenion Addysgol Arbennig; Addysg Bersonol a Chymdeithasol; Arsylwadau Cyffredinol
Susan L Williams	4	<b>Cwestiwn Allweddol 2</b> ; <i>Cerddoriaeth</i>
D. Lynn Bithell	4	Asesu; Llythrennedd; <i>Saesneg</i>
Trefor Lewis	3	Darpariaeth a Hyfedredd Dwyieithog; <i>Cymraeg</i>
Selwyn Gale	3	TGCh: <i>Dylunio a Thechnoleg</i>
Margaret E Herbert	3	Arsylwadau Cyffredinol; Medrau Allweddol Ehangach
Vanessa Incledon	3	<i>Addysg gorfforol</i>
David M Jones	3	<i>Gwyddoniaeth</i>
Martyn S Williams	3	Arsylwadau Cyffredinol

**Contractwr**                      Atlantes Educational Services  
Technology House  
Lissadel Street  
Salford    M6 6AP

### Cydnabyddiaeth

Dymuna'r tîm arolygu ddiolch i lywodraethwyr, staff a disgyblion Ysgol Uwchradd Dinbych am eu cwrteisi a'u cydweithrediad yn ystod yr arolygiad.